

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 504 · Tachwedd 2019 · 50c


## Seren Michelin i un o fechgyn Dyffryn Ogwen a'r Beach House

Llongyfarchiadau mawr i Hywel Llŷr Griffith, pen-gogydd y Beach House ym Mae Oxwich ar y Gŵyr ar dderbyn trydydd Rosette AA yn gynharach eleni ac ar dderbyn ei Seren Michelin cyntaf mewn seremoni yn Llundain ar Hydref 7fed.

Dywedodd Hywel ei fod yn falch iawn o'r wobwr a'i bod yn fraint cael cydnabyddiaeth gan sefydliad mor uchel ei barch. Mae'n garreg filltir mawr i'r Beach House prin dair mlynedd a hanner ers i Hywel symud yn ôl i Gymru i sefydlu'r bwyty ac mae'n cydnabod mai gwaith caled ac ymdrech y tîm cyfan sydd wedi arwain at dderbyn yr anrhydedd hon.



Hywel  
Griffith  
Michelin



**GWASANAETH  
NADOLIG  
CYMUNEDOL**

yng Nghapel Jerusalem  
**Nos Sul, Rhagfyr 15  
am 7.00yh**

Dewch i ddathlu'r Ŵyl yng nghwmni

**Côr Meibion y Penrhyn  
Côr y Dyffryn  
Côr Ysgol Dyffryn Ogwen  
ynghyd ag unigolion**

\*Mynediad am ddim"  
Gwneir casgliad tuag at achos da  
Croeso cynnes i bawb

## Prosiect 'Ein Bro' Ysgol Pen-y-bryn

Mae athrawon a disgyblion Ysgol Pen-y-bryn ar fin cychwyn prosiect addysg cyffrous newydd. Bydd Prosiect 'Ein Bro' yn ddehongli a chofnodi newidiadau mewn hanes, diwylliant a hunaniaeth ardal Bethesda, Dyffryn Ogwen ac Eryri, mewn cyfres o ffilmiau a chyflwyniadau amlgyfrwng.

Fe fydd y cyflwyniadau yma ar ffurf cyfres o ffilmiau, a storïau digidol, i ddehongli 3 cyfnod

penodol o fewn cof byw y mwyafrif o drigolion yr ardal.

Cyfnod 1 - Y chwe degau  
Cyfnod 2 - Yr wyth degau  
Cyfnod 3 - 2000 i 2020  
Cyfnod 4 - Cychwyn y daith yn ystod cyfnod y streic a chymharu gyda'r chwarel heddiw.

Bydd yr Ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r Cyngor Cymuned,

Llais Ogwan, cymdeithasau a phartneriaid Mentrau Iaith a diwylliant, yn ogystal â busnesau lleol yn ardal Dyffryn Ogwen.

Gwahoddir rhieni a thrigolion yr ardal sydd â diddordeb yn y prosiect i gysylltu gydag Ysgol Pen-y-bryn, er cyfrannu a chydweithio gyda'r disgyblion ar y prosiect yma. Mae hefyd yn gofyn yn garedig i bobl yr ardal i ddod ymlaen i gynnig atgofion o ddigwyddiadau hanesyddol,

copïau o luniau, ac erthyglau newyddion, cytuno i gyfweiliadau a sgysiau gyda disgyblion i gyflwyno atgofion am hanes a datblygiad Bethesda dros y blynyddoedd diwethaf, gan nodi newidiadau cymdeithasol, diwydiannol a diwylliannol.

Edrychwech allan am raglen waith y prosiect yn nhudalennau mis Rhagfyr a Ionawr Llais Ogwan, a thrwy gyfryngau cymdeithasol yr Ysgol.

## Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 600490

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev\_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

☎ 07588 636259

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

☎ 07867 536102

carwynnian@hotmail.com

## Swyddogion

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA ☎ 600853

nev\_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH ☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygydd mis Rhagfyr fydd

Carwyn Meredydd,

4 Rhes Gordon, Bethesda,

Gwynedd, LL57 3NR.

07867 536102

carwynnian@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn

**dydd Mercher, 04 Rhagfyr**

os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu

**nos Iau, 19 Rhagfyr,**

yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW: NID OES  
GWARANT Y BYDD UNRHYW  
DDEUNYDD FYDD YN  
CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD  
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.**

Cyhoeddir gan

Bwyllgor Llais Ogwan @Llais\_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths

elganguiffiths@btinternet.com

☎ 01970 627916

Argraffwyd gan y Lolfa

Archebu  
trwy'r  
post

Gwledydd Prydain - £22

Ewrop - £30

Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Mae Orina Pritchard wedi camu i lawr o Banel Golygyddol Llais Ogwan. Diolch i Orina am ei chyfraniad, a dymuniadau gorau iddi am y dyfodol.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

## Rhoddion i'r Llais

£10 Llewela O'Brien, Bangor, er cof am ei hannwyl dad, Richard Cyril Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, ar ddiwrnod ei benblwydd, 17 Tachwedd.

£10 Er cof am Mr. Gwilym Llewelyn Williams, Maes Caradog, oddi wrth y teulu.

Diolch yn fawr.

## Dyddiadur y Dyffryn

## Tachwedd

- 15 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.30 yn brydlon.
- 16 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00.
- 16 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 18 Te Bach. Ysgoldy Carmel Llanllechid. 2.30 - 4.00
- 20 Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 - 8.00.
- 21 Bingo Nadolig Eglwys Sant Tegai. Neuadd Talgai am 7.00.
- 23 Bore Coffi Neuadd Talgai. Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 28 Sesiwn Hyfforddi Diffribiliwr. Festri Capel Bethlehem Talybont. 6.00 - 8.00.
- 30 Bore Coffi'r Blaid Lafur. Cefnfaes. 10.00 - 12.00.

## Rhagfyr

- 01 Gwasanaeth Nadolig Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Capel Carmel Llanllechid am 3.00.
- 02 Merched y Wawr, Tregarth. Dathlu'r Nadolig- Cecil Williams. Shiloh am 7.30
- 03 Bore Coffi Nadolig. Ysgoldy Maes y Groes am 10.30.
- 04 Ffair Nadolig Bethlehem Talybont. Y festri am 6.30.
- 05 Sefydliad y Merched Carneddi. Dathlu'r Nadolig.
- 06 Te Nadolig Eglwys Crist Glanogwen. Y Douglas. 2.00 - 4.00yp
- 07 Ffair Nadolig Eglwys St. Ann a St. Mair. Neuadd Goffa M. Llandygai. 11-2.
- 07 Bore Coffi Ysgol Sul Jerusalem. Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 07 Eglwys Sant Tegai. Arddangos a Threfnu Blodau. Neuadd Talgai am 2.00.
- 09 Cymd. Hanes D. Ogwen. Deri Tomos. Festri Jerusalem am 7.00.
- 12 Cymdeithas Jerusalem. Dathlu'r Nadolig, Y Festri am 7.00
- 12 ETHOLIAD CYFFREDINOL. 7.00yb - 10.00yh.
- 14 Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 - 1.00
- 14 Bore Coffi Cwmni Drama'r Llechen Las. Cefnfaes. 10.00 - 12.00.
- 15 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem am 7.00
- 19 Noson gasglu a dosbarthu'r Llais. Cefnfaes am 6.45.



CYMRAEG

## Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
☎ 01248 355336

### Merched y Wawr

Cyfarfod Hydref 8fed. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Linda Carol, Beryl ac Annes. Daeth Gwilym a Beti Williams o Borthaethwy atom a chawsom noson ddifyr, roeddent wedi paratoi cwis gweledol, ac roedd amrywiol gategoriau a dipyn o waith crafu pen! Dilys wnaeth y baned ac roedd

### EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.  
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwobrau Tachwedd

- £30 (169) Rita Lewis, Pantglas, Bethesda.
- £20 (87) Rhian Owen, Bro Syr Ifor, Tregarth.
- £10 (173) Helen Williams, Penrhiw, Mynydd Llandygai.
- £5 (156) Sandra Williams, Stryd Goronwy, Gerlan.

### Gwobrau Blynyddol

- £50 (78) Dafydd Roberts, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas.
- £30 (165) Meirwen Williams, Gaerwen.
- £20 (123) Dilys Jones, Pencilan, Bethesda.

(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes - 600853)

Carol wedi anfon y raffl a enillwyd gan Jean. Diolchwyd i Gwilym a Beti am noson hwyliog iawn.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Angharad a Rhys, Aralia ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Siôn Roger i Martha a Mark. Maent yn byw yn Sir Fôn ar y funud ond yn bwriadu symud i ardal Pontllyfni yn y dyfodol. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

### Cofio cau Chwarel Dinorwig

Cawsom noson arbennig gan Cadi Iolen i gofio hanner canrif ers cau chwarel Dinorwig. Clywsom leisiau rhai o'r chwarelwyr a'u hymateb i'r newyddion trist fod y chwarel yn cau a 350 yn colli eu gwaith. Mae'n debyg nad oedd pethau heb fod yn dda yn y chwarel ers rhai blynyddoedd am sawl rheswm, dim cymaint o alw am lechi toi, teils yn rhatach, mae'n debyg. Yn ogystal roedd Chwarel y Penrhyn a Dinorwig yn cystadlu â'i gilydd am yr un farchnad. Roedd y buddsoddiad ym Marchlyn yn fethiant ac yn 1969 daeth archebion o Ffrainc i ben hefyd. Beth am y chwarelwyr? Aeth rhai i Ferodo, Peblig, Dolgarrog a rhai mor bell â Corby yn Lloegr. Gwerthwyd y chwarel am £20,000 yn unig. Clywsom hefyd fel y gwnaeth Huw Richard Jones sicrhau na werthwyd popeth yn yr arwerthiant a dyma oedd sylfaen yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol a sefydlwyd yn 1972.

Braf oedd gweld cynifer wedi troi allan ar y noson, llawer o ddiolch i ti Cadi am noson lwyddiannus iawn.

### Ymateb i gais

Rhai misoedd yn ôl gofynnodd Hefin Williams am hanesion rhai o'r adfeilion sy'n y pentre. Braf yw cael ymateb a daeth llythyr oddi wrth Shirley, Williams gynt ac

fu'n byw yng Nghefn Braich ac mae'n sôn am ei nain a'i thaid. Dyma ei stori, "Pan yn ddwy neu dair oed rwy'n cofio ymweld â fy hen daid a fy hen nain, John ac Ann Moses yn y bwthyn olaf ar y chwith ym Mhen y Ffridd. Bythynnod unllawr oedd ar y chwith ar ôl mynd heibio'r rhai deulawr ar y dde. Merch o Bodedern oedd Ann Moses, Williams gynt. Symudwyd y ddau i Wesley Terrace ar ôl gadael Pen y Ffridd ac ar ôl eu marwolaeth fe'u claddwyd ym Mynwent Pentir."

Mae'n awgrymu fod gan Owie Williams, brawd yng nghyfraith Ann Williams, Cae Mawr fwy o wybodaeth.

Llawer o ddiolch Shirley am ymateb i gais Hefin, gobeithio y daw mwy o wybodaeth am Ben y Ffridd.

### Dymuno'n dda

Mae Carol Jones, Creigle, yn gwella wedi cyfnod yn yr ysbyty. Cofion atat ac at eraill sy heb fod yn dda, mewn cartref gofal neu gartref.

### Clwb Rhiwen

Cyfarfod Hydref 13. Fe aeth rhai o'r aelodau i gaffi Menter Fachwen yng Nghwm y Glo. Cawsom baned a theisen flasus. Yn ogystal y mae siop ddi-ddorol yno, siop yn gwerthu amrywiaeth o bethau ail law. Rwy'n siŵr y bydd ymweliad arall yno yn ystod y tymor nesaf.

### Ôl rifynnau Llais Ogwan

Pob nos Lun mae'r Clwb Crefftau yn cyfarfod ac y mae Nia Jones yn gwneud llyfr lloffion gan gasglu pigion diddorol am hanes Rhiwlas o ôl rifynnau Llais Ogwan. Mae'n awyddus i gael y rhifynnau yma, Ionawr 1987 - Rhagfyr 2011. Os oes rhai ar gael, neu eu menthyg mi fuasai'n eu llungopio. Cysylltwch â rhif ffôn gohebydd Rhiwlas os gwelwch yn dda.

## Y Gerlan

Heledd Selwyn,  
2 Pen Clwt, Gerlan  
LL57 3TJ  
☎ 01248 208254  
07880 702640  
heleddselwyn@hotmail.com

### Ymddiheuriad

Ymddiheuraf o waelod calon i deulu'r diweddar Dylan Morgan o'r Gerlan am y camgymeriad a wnes i yn y Llais mis diwethaf. 'Roedd Dylan yn fab i Mrs Vera Morgan a'r diweddar Tom Morgan. Yn frawd annwyl i Gwyn

Morgan a Nerys Haf ac yn ewythr, perthyn, cyfaill a chydabod poblogaidd iawn yn ei filltir sgwâr.

Cydymdeimlaf â chi eto fel teulu ac am y poen i mi achosi i chi gyd.

(CB)

### Chwarae rygbi yn Affrica

Bu Iago Davies, Tŷ Dŵr allan yn Nairobi wythnos diwethaf yn chwarae i dîm y Wailers yng nghystadleuaeth y Safari 7s. Enillodd eu grŵp ar y diwrnod cyntaf cyn colli i dîm Academi Rwsia yn rownd yr 8 olaf.

### Marathon Eryri

Llongyfarchiadau i Megan Hughes,

Ciltwllan ar gwblhau Marathon Eryri yn ddiweddar a hynny mewn 3 awr a 45 munud. Bu i mam Megan gwblhau hefyd ac felly llongyfarchiadau i chi fel teulu!

### Croeso i Gerlan

Croeso mawr i Lois Williams ac Imran i'w cartref newydd yn Ffordd Gerlan. Gobeithio y byddwch yn hapus yma.

### Diolch

Mae Caren Brown penderfynu camu i lawr fel casglwr newyddion ardal Y Gerlan. Hoffai Llais Ogwan ddiolch yn ddiffuant i Caren am ei gwaith dros y papur.

### Bore coffi

Diolch i bawb gefnogodd bore coffi'r Caban ar y 12fed o Hydref yn y Cefnfaes. Codwyd bron i £220 o bunnoedd i gronfa'r neuadd. Diolch hefyd i bawb wirfoddolodd ar y diwrnod mewn unrhyw ffordd. Da ni'n ddiolchgar iawn.

### Pasio Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Glesni Owen, Gwaen Gwiall ar basio ei phrawf gyrru.

### Dyweddio

Llongyfarchiadau i Awen Haf Williams a Danial Thomas ar eu dyweddïad. Pob dymuniad da i chi'ch dau.

## Bethesda

Mary Jones, maryeds@  
hotmail.co.uk

☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,  
Ffordd Ffrydlas, Bethesda  
☎ 601902

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Jennifer a Siôn Wyn Griffith, mab hynaf Iorwerth a Marian, Ffordd Pant a brawd Hywel a Rhys, ar enedigaeth eu merch, Enlli Mair Griffith, ddydd Sul, 6ed Hydref yn Ysbyty Mamolaeth Glasgow. Wyres cyntaf i Iorwerth a Marian a'r degfed gor-ŵyr/wyres i Mrs Menai Jones, Tregarth.

### Diolch

Dymuna Mrs. Blodwen Cavanagh, Maes y Garnedd, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch i'r teulu am drefnu parti ardderchog

yn y Clwb Rygbi.

Dymuna Llewela O'Brien, ddiolch am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

### Ysbyty

Cofion annwyl a gwellhad buan at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef:- Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg; Mr. Richard Hughes, Ffordd Sarnau; Mrs. Rhiannon Efans, Ffordd Pant; Mr. Calvin Hughes, Maes Coetmor a Mrs. Mair Jones, Ffordd Bangor.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Gwenno a Sion ar enedigaeth eu merch fach Anna Mai. Mae Nain a Taid, Erw Las sef Sioned a Paul Davies a Nain Ciltrefnus sef Karen Roberts wrth eu boddau, fel yn wir y mae Jessie Jones Glanafon wedi dod yn hen nain a Gwen a John Davies Tanysgrafell yn hen nain a thaid. Llongyfarchiadau i chi i gyd.

### Taid

Llongyfarchiadau i Mr. Richard

Jones, Bryn Caseg, ar ddod yn daid unwaith eto - i ferch fach ar 22 Hydref.

### Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Wendy a John Dore, Garneddwen, a'r teulu. Bu farw modryb i Wendy yn ddiweddar, sef Mrs. Edith Hughes o Dregarth.

### Gorffwysfan

Cofiwch am y wibdaith nesaf i Farchnad Bury ddydd Mercher, 20 Tachwedd. Cychwyn ger y gofeb am 8.30yb. Cofiwch hefyd am ein Cinio Nadolig, ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr. Cychwyn ger y gofeb am 9.45yb, galw yn Pringle's Llanfairpwll, ac ymlaen i Westy'r Breeze Hill, Benllech am y cinio.

### Profedigaeth

*Mr Vernon James Owen*  
Ar Hydref 2il yn dawel yng nghwmni ei deulu yn ei gartref yn 30 Abercaseg bu farw Vernon Owen. Priod annwyl y ddiweddar

Mrs. Violet Owen, roedd yn dad annwyl i Tina, Karen, Angela a Steven, tad yng nghyfraith i Arfon, Peter a Hayley, taid hoffus i Claire, Liam, Enlli, Llioni, Cieran, Ruth, Amy, Chloe, Katie, Siân, Amelia ac Emily a hen daid i Mathew.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher, 9 Hydref, gyda gwasanaeth i'r teulu yn Abercaseg, ac yna gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Crist a Mynwent Coetmor. Yn gwasanaethu 'roedd y Barchedig Christina McCrea a'r Parchedig John Matthews, a chafwyd darlleniadau gan Amy a Chloe. Mrs. Christine Edwards oedd wrth yr organ, ac wrth y drws 'roedd Mrs. Glenys Morgan a Mrs. Barbara Owen, a Mr. Albert Humphreys oedd y clochydd. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Gŵr tawel a boneddigaidd, hoffus a pharod ei gymwynas oedd Vernon, yn aelod o Eglwys Crist Glanogwen, ac yn drysorydd ac aelod selog o

## Yr Eglwys Unedig

A wyddoch chwi mae'r Eglwys Unedig yw perchennog yr ardd sydd o flaen y Capel? Yn y gorffennol, byddai'r Cyngor Sir yn gofalu am dorri'r gwair a phlannu blodau a llwyni ynnddi, ond erbyn hyn, yn dilyn toriadau yng nghyllid y Cyngor, ein cyfrifoldeb ni fel aelodau yw'r cyfan. 'Rydym yn ddiolchgar dros ben i bwyllgor Balchder Bro am gyfraniad ariannol sylweddol tuag at brynu planhigion, ac i'r gwirfoddolwyr sydd yn edrych ar ôl yr ardd.

'Rydym yn falch hefyd o weld oedolion a phlant yn mynychu'r ardd, ac yn cael cyfle i fwynhau'r "lle i enaid gael llonydd" hwn, ond testun pryder a siom i ni yw'r difrod a'r sbwriel sydd yw ganfod ynnddi bob wythnos. Hoffem bwysleisio mai NID cae chwarae yw'r ardd, ac nad yw reidio beic neu gicio pêl yn dderbyniol ynnddi. Apeliwn yn garedig felly ar i chwi rieni drosglwyddo'r neges hon i'ch plant.

Gyda llaw, mae swyddogion o'r Cyngor Sir a Dŵr Cymru

ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r broblem o ddŵr yn llifo o Ffordd Ffrydlas a thrwy'r ardd i'r A5 yn ystod cyfnodau trwm o law.

### Oedfaon

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch hyfryd gan y plant, o dan ofal Lowri, pryd y derbyniwyd llu o roddion tuag at y Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Dilynwyd yr oedfa gyda chawl blasus wedi'i baratoi gan Alwenna. Diolch yn fawr i'r ddwy, ac i Ceri a Minnie am gynnal dwy oedfa arall yn ystod y mis - gwerthfawrogir eu cyfraniad parod bob amser.

### Y Gymdeithas

Ym mis Hydref, cafwyd sgwrs addysgiadol iawn am waith y Samariaid a'r NSPCC gan Mr Meic Griffiths. Cynhelir y cyfarfodydd ar yr ail nos Iau o'r mis yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn - croeso cynnes i bawb, ac am fwy o wybodaeth, cysyllter â Mrs Luned Edwards (601 921).

### Côr y Dyffryn

Mae'r Côr yn brysyr yn paratoi



Gardd Jerusalem

ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol blynyddol a gynhelir nos Sul, Rhagfyr 15fed, am 7 o'r gloch yr hwyr.

### Cofion

Anfonwn ein cofion arbennig y mis yma at Mrs Mair Jones (Mair Siop), sydd yn derbyn triniaeth unwaith eto. Da deall bod Mrs Rhiannon Efans yn gwella'n raddol wedi llawdriniaeth, a hefyd Mrs Elina Owen, yn dilyn codwm go arw yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r tair ohonoch.

### Cyhoeddiadau'r Sul

#### Tachwedd

- 17: Mr Eryl Wyn Davies (10)  
Trefniant Mewnol (5)  
24: Y Parchedig Gwenda Richards (10 a 5)

#### Rhagfyr

- 1: Y Parchedig R O Jones (10 a 5)  
8: Oedfa Nadolig y Plant (10.30)  
Ms Jennifer Roberts (5)  
15: Mr Richard Lloyd Jones (10)  
Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (7)



Gorffwysfan. Roedd pawb o'r ardal yn arfer ei weld yn cerdded yn gefnsydd wrth fynd am dro ar hyd llwybrau yr ardal. Bydd chwith amdano.

Dymuna'r teulu ddiolch o galon i'r Nyrsys Ardal, Gofalwyr Abacare, Shirley Hughes y nyrs arbenigol a staff Ward Moelwyn Ysbyty Gwynedd, pob un ohonynt wedi bod yn gefn mawr i Vernon a'r teulu. Diolch hefyd am yr holl gardiau a phob arwydd o gydymdeimlad. Rhannwyd y rhoddion a dderbyniwyd er cof rhwng Hosbis Dewi Sant a Ward Moelwyn.

Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich colled, mae ein hardal

wedi colli cymeriad annwyl unwaith eto.

#### Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ar nos Wener, 25 Hydref, yng Nghanolfan Ôl-raddedig Ysbyty Gwynedd, cafwyd noson ardderchog o Arddangosiad Gosod Blodau gan Dawn Weaver o Gaer. Cafwyd gair o groeso gan yr Is-gadeirydd, Iona Jones, a'r diolchiadau a'r raffl gan Joe Hughes a Norman Evans. Cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan yr aelodau. Rydym yn ddiolchgar i Norman am drefnu'r noson a wnaeth elw o £740.00.

Yna, i gloi'r flwyddyn bydd y Cyfeillion yn cynnal Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Carmel,

Llanllechid, ar ddydd Sul, 1 Rhagfyr am 3.00yp. Bydd Côr Ysgol Llanllechid yn cymryd rhan yn y gwasanaeth, ac aelodau o gymdeithasau'r fro yn darllen. Mae croeso cynnes iawn i bawb ymuno â ni i gloi dathlu ein penblwydd yn 50 oed. Yn dilyn y gwasanaeth bydd paned a mins pei yn y festri.

Gwneir casgliad tuag at waith y Cyfeillion yn ystod y gwasanaeth.

#### Cyfarchion Nadolig

Ni fydd Helen a Bethan, Ffordd Ffrydlas, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond maent yn dymuno Nadolig Dedwydd i'r teulu, cymdogion a chyfeillion.

#### Eglwys Crist, Glanogwen

Gwasanaethau

Pob Bore Sul: Cymun Bendigaid Corawl am 11yb.

Nid oes Cymun am 8 dros y gaeaf.

Pob bore Mercher: Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.

#### Sul, Rhagfyr 1af

Cynhelir gwasanaeth Carolau a darlenniadau ar gyfer yr Adfent am 11 y bore. Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau. Anfonwn ein cofion fel arfer at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i'w cartrefi.

**Os hoffai unrhyw un dderbyn cymundeb yn eu cartref, cysylltwch â Glenys Morgan ar 600371.**


**Bydd Te Nadolig yng Ngwesty'r Douglas Arms prynhawn Dydd Gwener, 6 Rhagfyr rhwng 2 a 4 o'r gloch.**

**Tocynnau £5**

Clwb Hanes Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid

**AR WERTH - YN ANRHEG NADOLIG DELFRYDOL**

**Llyfr Hen Luniau o Rachub, Caellwngrydd a Llanllechid**



£5

**- ar gael gan Dilwyn Pritchard - 2 Bron Arfon, Rachub**

**neu yn Marchnad Ogwen ar stondin Crefftau Howget**

**Os am gael trwy'r post cysylltwch â Dilwyn Pritchard**

**d.pritchard@btinternet.com 01248 601880**

**Côst drwy'r post fydd £6.60 am un copi, £12 am 2 gopi.**

## Newyddion Ynni Ogwen

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Ynni Ogwen yng nghlwb rygbi Bethesda ar y 25ain o Fedi 2019. Croesawodd y Cadeirydd Griff Charles Morris nifer o aelodau Ynni Ogwen i'r cyfarfod blynnyddol ac i glywed mwy am weithgarwch Ynni Ogwen yn ystod 2018-2019. Rhoddwyd cyflwyniad gan Gareth Cemlyn Jones ar gynhyrchiant yr hydro yn ystod y flwyddyn a'r gwaith cynnal a chadw sy'n cael ei wneud gan ein tîm o wirfoddolwyr. Rhoddodd Paul Rowlinson adroddiad llawn ar y cyfrifon gan wneud argymhellion a dderbyniwyd yn unfrydol gan yr aelodaeth. Yn dilyn y materion swyddogol rhoddwyd cyflwyniad ar brosiect Dyffryn Gwyrdd gan Huw Davies o Bartneriaeth Ogwen a cafwyd trafodaeth grwp ddifur ar ddatblygu prosiectau cynaladwyedd yn y Dyffryn.

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus eto i

Ynni Ogwen ac er fod cynhyrchiant ychydig yn is na'r llynedd, rydym bellach wedi cynhyrchu 1191012 KWh o ynni glan adnewyddadwy o lif yr afon Ogwen. Cyrhaeddodd Ynni Ogwen restr fer y Prosiect Gorau yng ngwobrau Ynni Cymunedol Cymru a Lloegr 2019 ac mae hyn yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth genedlaethol sydd i'n gwaith. Mae un o'n Cyfarwyddwyr - Meleri Davies wedi ei enwebu fel Arloeswr Ynni Gwyrdd yng Ngwobrau Regen Prydain ac fel Pencampwr Cynaladwyedd yng ngwobrau Academi Gynaladwyedd Cymru 2019 a dymunwn yn dda iddi yn y gwobrau ddiwedd Tachwedd.

Mae'r gwaith o gynnal a chadw yr hydro yn parhau i gael ei wneud gan dim o wirfoddolwyr gweithgar a mae'n dyled yn fawr i'n cyfarwyddwyr Gareth Cemlyn Jones a Griff Charles Morris sy'n arwain y gwaith hwn o ddydd i ddydd. Mae gwirfoddolwyr newydd wedi dechrau gwirfoddoli hefo ni yn

ystod y flwyddyn a mae croeso mawr i eraill gysylltu os hoffent gyfrannu tuag at waith Ynni Ogwen yn y dyfodol.

Mae diddordeb yn ein cynllun hydro yn parhau yn uchel a mae aelodau o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn tywys teithiau at yr hydro yn gyson. Mae'r ymweliadau hyn yn amrywio o deithiau gan ysgolion lleol i fudiadau fel y British Hydro Association neu wleidyddion o bob plaid.

Mae Bwrdd Ynni Ogwen yn awr yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i ddatblygu cynllun Heuldro Ogwen - cynllun i osod paneli solar ar adeiladau cymunedol yn Nyffryn Ogwen ac edrychwn ymlaen i gydweithio ar brosiectau sy'n dod a budd amgylcheddol a chymunedol i'r Dyffryn.

Meleri Davies  
**Prif Swyddog**  
**Partneriaeth Ogwen**  
**meleri@ogwen.org**



## YSGOL PEN-Y-BRYN

### Arbed Ynni

Cafodd plant blwyddyn 6 wahoddiad i Neuadd Ogwen ar Hydref 23ain ar gyfer noson arbennig iawn. Cyn yr haf bu plant yr ardal leol yn cyd-weithio gyda Partneriaeth Ogwen i greu fideos ynglŷn a sut i arbed egni. Croesawyd y plant i Neuadd Ogwen gyda charped gwyrdd!! Dangoswyd y fideos ar y sgrin fawr a chafodd y plant eu mwynhau gyda phop-corn! Diolch o galon i Cynan, Huw a phawb arall yn Partneriaeth Ogwen am eu gwaith caled a'u croeso cynnes. Edrychwn ymlaen at y cyd-weithio nesaf!

### Yasus Afari

Roedd Ysgol Pen-y-bryn yn lwcus iawn o groesawu Yasus Afari o Jamaica unwaith eto. Bu'n cydweithio gyda phlant blwyddyn 5 a 6 i gymharu Cymru a Jamaica ac yna lluniodd barddoniaeth am y ddwy wlad. Roedd y plant wedi mwynhau dysgu am Jamaica a chymharu'r wlad gyda Chymru. Diolch yn fawr, Yasus!

### PC Owain Edwards

Croesawyd PC Owain Edwards i'r ysgol i siarad gyda phlant blwyddyn 5 a 6 am ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Ymatebodd y plant yn dda iawn a dysgwyd llawer yn ystod y sesiynau. Diolch yn fawr, PC Edwards am ddod atom!

### Disgo'r Urdd


Ar Hydref 15fed, cynhaliwyd disgo'r Urdd yn Ysgol Tryfan. Cafwyd llawer o hwyl a dawnsio di-ri! Diolch yn fawr i staff yr Urdd am drefnu'r disgo eto eleni.

### Disgo Calan Gaeaf

Cafwyd llond neuadd o wisgoedd dychrynlyd ar Hydref 16eg yn ystod disgo Calan Gaeaf yr ysgol! Roedd yn wych gweld y plant wedi mynd i gymaint o ymdrech i wisgo fyny. Cafodd Jay a Tobie wobwr am y wisgoedd gorau a gafodd Elliw wobwr am ddawnsio! Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n rhan o'r trefnu.

### Caerdydd

Buom ar daith anhygoel yng Nghaerdydd yn ddiweddar gyda disgyblion blwyddyn 6. Cawsom brofiadau gwych yn ymweld â Sain Ffagan, Y Senedd, Pwll Mawr, a'r uchafbwynt yn ddiarheuaeth oedd taith o amgylch Stadiwm Principality. Diolch i bawb a drefnodd y daith, ond diolch pennaf i'r plant am ymddwyn mor dda! Da chi werth y byd ddosbarth Elidir!!



hynod o gyffrous yn Ysgol Pen-y-bryn pan recordiwyd rhaglen Aled yn fyw o'r ysgol i ddathlu llwyddiant Lois. Heb os, byddwn yn clywed mwy o straeon Lois yn y dyfodol agos!

### Sialens Ddarllen

Da iawn pawb sydd wedi gwneud y sialens ddarllen dros yr haf. Rydych yn ddarllenwyr o fri!!

### Diwrnod Shwmae Su'mae

Bu'r ysgol yn dathlu diwrnod Shwmae Su'mae drwy greu posteri i annog pobl i gychwyn sgwrs yn y Gymraeg. Bydd y posteri yn cael eu rhoi yn ffenestri siopau lleol er mwyn hybu'r Gymraeg. Da iawn, bawb!

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Bethan Hughes ar enedigaeth Gruffudd Wyn ar yr ugeinfed o Hydref. Edrychwn ymlaen i'w gyfarfod yn fuan!

### Sticeri Aldi

Hoffwn ddiolch o galon i bawb a fu'n gwario yn Aldi yn ddiweddar er mwyn casglu y sticeri. Rydym yn hynod falch o gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i gasglu 300 o sticeri ar gyfer y gystadleuaeth. **POB LWC YSGOL PEN-Y-BRYN!**

### Enillydd Stori Fer BBC

Llongyfarchiadau anferthol i Lois Ryder o ddosbarth Elidir a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth ysgrifennu stori fer Radio Cymru i flwyddyn 5 a 6. Cafwyd bore



## YSGOL DYFFRYN OGWEN

### Seremoni Gwobrwyo 2019

Cynhaliwyd Seremoni Gwobrwyo blynyddol yr ysgol yn ddiweddar ble cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academaidd, yn allgyrsiol ac o ran presenoldeb ac ymdrech gyda'u gwaith ysgol.

Yr oedd yn braf iawn croesawu rhai o benaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch i rannu llwyddiannau eu cyn ddisgyblion. Diolch yn fawr iawn i Mrs. Ceren Lloyd, Pennaeth ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg am ei geiriau doeth yn anerchiad y wraig wadd. Hoffem ddymuno'r gorau iddi ar ei ymddeoliad y Nadolig hwn.

Mae'r ysgol yn rhoi llawer o bwyslais y dyddiau yma ar bresenoldeb da, gan fod llawer o dystiolaeth fod disgyblion gyda phresenoldeb da yn llwyddo'n llawer gwell na'r rhai sy'n colli dyddiau yma ac acw - ac nid yw hynny'n syndod wrth gwrs. Yr oedd yn braf iawn gwobrwyo cymaint o ddisgyblion am bresenoldeb 100%.

Y tri disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni Dafydd Herbert-Pritchard, Gwydion Rhys a Jasmine Griffith. Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau Lefel A gorau oedd Esme Crowe a Gethin Hughes.

Rhannwyd Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni rhwng Sion Davies, Ellen Gould, Cadi Roberts ac Efa Williams. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol am berfformiadau Lefel A eithriadol i ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud hynny ym Mhrifysgol Cymru.

Aeth Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr i Dafydd Owain a Ryan Williams, y ddau wedi gadael yr ysgol ar Ddydd Gwener ym Mehefin a dechrau prentisiaethau ar y dydd Llun canlynol!

Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Seren Hinchliffe, Daniel Jones, Megan Macdonald Jones, Idris Morris, Rhiannon Roberts, Cian Rhys a Nicola Wheatcroft.

Diolch i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddisgyblion a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Enillwyr eleni oedd Afra Haider, Kyle Williams, Katie Griffith, Jac Roberts, Elin Smith a Catherine Roberts.

Bu i wyth disgybl dderbyn gwobrau Cyngor Cymuned Llanllechid, gwobr newydd eleni, am eu gwaith gyda Bagloriaeth Cymru, Hannah Jones, Dafydd Herbert-Pritchard, Esme Crowe, Ellen Gould, Hannah Morgan, Sion Davies, Gethin Hughes a Cadi Roberts.

Cyflwynwyd Gwobr Goffa Charlotte Speddy eleni i Catrin Jones am ei gofal o gyfeillion yn yr ysgol a rhoddwyd gwobr Ysgoloriaeth Charlotte Speddy i Lois Ashton sydd bellach yn astudio ar gyfer gradd mewn nyrsio.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian



Disgyblion a dderbyniodd wobwr ymdrech



Disgyblion a dderbyniodd wobwr blwyddyn 7

Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emllyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Ela Oliver am ei chynnydd arbennig fel rhedwraig gyflym, a'i llwyddiant yn cynrychioli Cymru ar y trac rhedeg.

Esme Crowe oedd enillydd gwobr goffa Frank Rhys Jones, sef y wobwr a gyflwynir gan y Prifathro i ddisgybl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol. Cyflwynwyd tlws athletwr y flwyddyn i Boe-Celyn Jones. Mae Boe-Celyn gwneud yn arbennig o dda fel rhedwraig pellteroedd hir, ar y trac ac ar draws gwlad.

Diolch i'r holl ddisgyblion am eu gwaith caled ac wrth gwrs i'r rhieni, staff a llywodraethwyr am eu cefnogaeth iddynt.

### Dymuniadau Gorau

Hoffem ni oll yn yr ysgol ddiolch i Ms Jen Roberts am ei gwasanaeth arbennig i'r disgyblion yn yr ysgol dros ddegawd a mwy. Mae Ms Roberts wedi ein gadael ddiwedd Hydref ac wedi cael dyrchafiad i swydd efo'r Gwasanaeth Ieuencid. Dymuniadau gorau iddi.

### Prif Ddisgyblion

Prif ddisgyblion yr ysgol am y flwyddyn yw Beca Nia a Meilir Griffiths gyda Megan Williams a Reece Davies yn ddirprwyon. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt.

### Noson Agored

Cynhaliwyd Noson Agored flynyddol yr ysgol nos Fawrth, 22ain o Hydref, i rieni disgyblion ym mlynnyddoedd 5 a 6. Yr oedd yn braf iawn gweld yr ysgol yn llawn o ddarpar rieni a disgyblion o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Pen-y-bryn, Rhiwlas, Tregarth a Llandygai. Yr



Disgyblion yr ysgolion cynradd yn mwynhau'r noson agored.

oedd canmoliaeth fawr i'r noson gan y rhieni a fu'n bresennol a gobeithir yn fawr y bydd pob disgybl sy'n byw yn y dalgylch yn dod i Ysgol Dyffryn Ogwen.

### Ymweliad Adran Ddaeryddiaeth

Bu rhai o'r disgyblion sy'n astudio Ddaeryddiaeth ar gyfer eu TGAU yn mesur ystum afon fel rhan o'r gwaith cwrs. Diolch i Mr Dylan Jones a Ms Jen Roberts am fynd a nhw, roedd yn ymweliad llawn hwyll!

### Diwrnod 'Cymru Coch'

Gwisgodd y disgyblion mewn coch ar gyfer codi arian tuag at brosiectau yn yr ysgol a gwylio rygbi Cymru yn erbyn Ffiji. 'Roedd awyrgylch arbennig yn neuadd yr ysgol yn enwedig pan fu i Gymru ennill a mynd ymlaen i'r rownd nesaf.

### Ffilmio 'Un Cwestiwn' yng Nghaerdydd

Bu i Siwan Lewis, Seren Hinchliffe, William Jones a Cian Rhys gael y profiad anhygoel o hedfan i Gaerdydd yn ddiweddar ar gyfer ffilmio cwis poblogaidd 'Un Cwestiwn'. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu ar ôl y flwyddyn newydd.

### Chwilio am Seren

Llongyfarchiadau i Rhiannon Roberts (a Mackenzie) ar eu perfformiad gwych yn ddiweddar yn ffeinal 'Chwilio am Seren'.

### 'Only Boys Aloud'

Diolch i 'Only Boys Aloud' am daro heibio yn ystod mis Medi i roi sesiwn flas hwyliog ac ysbrydoledig i'r bechgyn. Da iawn i Samuel Valentine o flwyddyn 8 am ddangos ei doniau.

### Poteli Dŵr

Mae poteli dŵr newydd wedi cael eu dosbarthu i bob disgybl. Mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol gwaith un o grwpiau 'Llais' yr ysgol. Da iawn chi.

### Athletau Sir

Llwyddwyd i dorri pedair record yn Athletau Sir gan athletwyr talentog yr ysgol. Bu i Madeleine Sinfield dorri record 300medr, 800medr a naid uchel (1.43medr) a hefyd record newydd i Ela Oliver yn y 300medr. Perfformiadau arbennig gan weddill y garfan hefyd.



# Newyddion o Bartneriaeth Ogwen

## Carwen y Car Cynaliadwy wedi cyrraedd!

Mawr fu'r edrych ymlaen ym Mhartneriaeth Ogwen dros yr wythnosau diwethaf a bellach mae'r weledigaeth yn realiti gyda Carwen y Car Trydan wedi sefydlu yn ei chartref newydd tu allan i'r Llyfrgell. Partneriaeth am flyddyn gydag Arloesi Gwynedd Wledig yw'r cynllun newydd hwn fydd yn rhoi cyfle i drigolion y dyffryn brofi gyrru car trydan ac hefyd hyrwyddo cyfleoedd i yrwyr gwirfoddol wrth gludo unigolion i apwyntiadau meddygol a chymdeithasol. Bydd y car ar gael hefyd i unigolion a theuluoedd led-led y dyffryn ei defnyddio.

Hyn i gyd am bris rhesymol, ac yn defnyddio trydan gwyrdd a glan! Dywedodd Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen "Mae cael car trydan yn y dyffryn am 12 mis am fod yn gyfle gwych i hyrwyddo trafniadaeth fforddiadwy a chynaliadwy i'n trigolion. Mae gennym weledigaeth o Ddyffryn Gwyrdd lle mae pawb yn gallu cael mynediad at drafniadaeth safonol fydd yn hybu cyfleon gwirfoddoli a gweithio yn ogystal a hamddena. Rydym yn ddiolchgar iawn i Arloesi Gwynedd Wledig am eu



cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at brosiect llwyddiannus fydd yn arwain at leihau ein ôl-troed carbon".

Am fwy o fanylion ar sut i logi'r car trydan cysylltwch a swyddfa Partneriaeth Ogwen ar 01248 602131 neu huw@ogwen.org

## Noson Ffilmiau

### Arwyr Arbed Ynni Dyffryn Ogwen - Noson Ffilmiau 23.10.19

Am 6 o'r gloch yr hwyr ddydd Mercher Hydref 23ain 2019 bu noson yn Neuadd Ogwen pan y bu "Premiere" dwy ffilm ar arbed ynni a grëwyd gan ddisgyblion ysgolion Pen-y-bryn a Thregarth.

Treuliodd rhai o staff Partneriaeth Ogwen a'r cynhyrchydd ffilmiau Llinos Griffin o gwmni Gwefus ddiwrnod a hanner yn y ddwy ysgol yn arwain y plant drwy y camau o greu ffilm.

Rhannwyd un dosbarth o'r ddwy ysgol yn grwpiau o bedwar neu bump a cychwynnwyd ar y gwaith gan ddilyn y camau canlynol:

- Gweithio trwy syniadau am arbed ynni
- Dewis un syniad a phenderfynu sut i'w droi yn ffilm trwy greu "Storyboards"
- Sgriptio'r ffilm
- Dewis actorion, cyfarwyddwr a person camera
- Ffilmio

Llinos fu wrthi wedyn yn golygu a gorffen y gwaith.

Gwnaed 11 o ffilmiau bychain rhwng y ddwy ysgol gyda phynciau yn cynnwys tyfu ein bwyd ein hunain, prynu bwyd yn ei dymor, peidio gwastraffu, rhannu ceir a llawer mwy.

Cafodd y sêr gerdded i mewn i Neuadd Ogwen ar garped gwyrdd (yn hytrach na charped coch yr Oscars!) a chael popcorn a sudd afal lleol newydd ei wasgu i fwynhau y noson.

Yn ogystal dangoswyd ffilm ddirdynol Mari Huws "Arctig - Môr o Blastig" sydd yn cofnodi ei thaith ar long ymchwil 'r Arctig i fesur effaith plastig ar y moroedd hyd yn oed ym mhellafoedd y byd.

Neges y ffilm Mari yw ein bod ni fel Cymry yn llawn mor gyfrifol am y llygredd a phawb arall a neges y plant oedd bod "gwneud y pethau bychain" gan bob un ohonom yn cyfrannu tuag at arbed ynni a lleihau gwastraff a llygredd.

Y mae modd gweld y ffilmiau ar safle we Partneriaeth Ogwen [www.ogwen.org](http://www.ogwen.org) o dan y pennawd Arbed Ynni.

## M-Sparc yn mynd 'ar y lôn'... ac yn dechrau ym Methesda!

Datblygiad arall cyffrous yn y Stryd Fawr yn ddiweddar oedd sefydlu gofod teithiol Msparc yn swyddfa'r Dyffryn Gwyrdd, 26 Stryd Fawr. Mae prosiect blwyddyn yn cael ei gynnal, wrth i **M-SPARC** fynd 'Ar y Lôn'. Bydd y daith yn cychwyn ym Methesda ar y 1<sup>af</sup> o Dachwedd, gan rannu adeilad gyda Partneriaeth Ogwen ar y stryd fawr, ac ar ôl tri mis bydd yn symud i leoliad yng Nghonwy. Mae hwn yn gyfle gwych i siarad gyda chymunedau newydd o bobl, gweithio gyda chynlluniau presennol a gweld ble gall **M-SPARC** ychwanegu gwerth.

Mae **M-SPARC** yn awyddus i sicrhau bod y bartneriaeth yn effeithiol, ble bynnag fydd y daith yn mynd â hwy. Nid dim ond cyrraedd yn uchel eu cloch yw'r nod, ac wedyn gadael dri mis yn ddiweddarach i geisio gwneud yr un peth eto. Y bwriad yw cael effaith ar y cymunedau maent yn ymweld â hwy, gan greu meddylfryd busnes entrepreneuriaidd gyda'i ffocws ar y gymuned.

Mae rhan o'r prosiect yn cynnwys gofod creu Ffws, prosiect sy'n cael ei gyllido gan Arfor. Nododd y Cynghorydd Gareth Thomas, Cyngor

Gwynedd "Mae Rhaglen ARFOR yn brosiect ar gyfer Gwynedd, yn treialu prosiectau arloesol i ddatblygu'r economi leol a hybu'r Iaith Gymraeg. Bydd Ffws yn gyfle i fynd â'r dechnoleg newydd i leoliadau amrywiol, gan ddatblygu syniadau newydd."

Bydd pobl yn gallu defnyddio'r gofod i weithio wrth ddesg gan ddefnyddio wi-fi am ddim, mynychu unrhyw un o'r digwyddiadau busnes niferus a fydd yn cael eu cynnal, o glinigau cynghori i arbrofion gwyddonol ar gyfer plant, ac wrth gwrs creu prototeipiau a phrosiectau prawf yng ngofod creu Ffws.

Croeso i unrhyw un sydd eisiau dod i ddefnyddio'r gofod i weithio, i'n holi ni am gychwyn busnes, i gael cymorth, neu wrth gwrs i fynychu unrhyw un o'n digwyddiadau!

Gwylwch ein cyfryngau cymdeithasol am fwy o fanylion; @SiopOgwen a tudalen facebook Partneriaeth Ogwen.





# gair neu ddau

John Pritchard

## Mentwrch Ddweud

Mewn oedfa Ddiolchgarwch ddiwedd mis Hydref fe'm hatgoffwyd am oedfa arall bron i ddeugain mlynedd yn ôl. Doedd gen i fawr o gof o'r oedfa honno a drefnwyd gan aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanefydd. Rwy'n cofio i mi gael fy ngwahodd i arwain un o'r oedfaon y byddai'r Clwb yn ei drefnu bob blwyddyn adeg y Diolchgarwch. Rwy'n tybio mai ar ôl i Falmai a minnau briodi oedd hynny, er y gallasai'n hawdd fod cyn hynny gan mai hi oedd Ysgrifenyddes y Clwb am flwyddyn neu ddwy cyn i ni briodi. Mae'n debyg y deuw'n o hyd i ddyddiad yr oedfa pe bawn i'n chwilota am hen ddyddiaduron sy'n rhestru'r llefydd y bûm yn pregethu ynddynt dros y blynyddoedd. O bosib y byddai'r dyddiadur hefyd yn nodi beth oedd testun y bregeth y noson honno.

Y peth a'm synnodd y noson o'r blaen oedd bod y cyfaill a soniodd am yr oedfa'n cofio o leiaf ddau beth amdani. Roeddwn wedi dweud rhywbeth am yr Ysbryd Glân; ac a hithau'n noson egr yr oedd gwynt wedi chwythu drws y capel yn agored yn ystod yr

oedfa. Mae'n bosib mai'r ffaith fod stori'r Pentecost yn dweud fod dyfodiad yr Ysbryd 'fel gwynt grymus yn rhuthro' a wnaeth y peth yn gofiadwy iddo.

Doeddwn i'n cofio dim. Ond mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod wedi gwerthfawrogi'r atgof. Chefais i ddim cyfle i'w holi a oedd o'n cofio unrhyw beth arall am yr oedfa. O bosib nad oedd. Ond roedd y ffaith ei fod yn cofio o gwbl wedi'r holl flynyddoedd yn galonddid i mi. Y mae hefyd yn ysgogiad i mi i ddal ati i gyhoeddi Efengyl Iesu Grist heddiw gan ei fod yn fatgoffa nad oes yr un ohonom yn gwybod yn aml iawn pa werth sydd i'r dystiolaeth a ddygwn i'n Gwardwr, boed hynny mewn sgwrs, pregeth, erthygl neu unrhyw gyfrwng arall. Ar brydiau, gallwn dybio nad oes neb yn clywed nac yn cymryd sylw o'r neges a rannwn. Ond wŷr neb ohonom pwy sy'n gwrandao ac yn gwerthfawrogi'r dystiolaeth a ddygwn i'r Ffydd ac i'r Arglwydd Iesu Grist. Ac felly, chi sy'n credu ynddo, daliwch i sôn amdano wrth gyfeillion a châr a chymdogion. Cewch eich temtio o bosib i feddwl nad oes neb eisiau clywed; ond daliwch ati am nad oes modd i chi wybod pwy ddaw i werthfawrogi'r hyn a ddywedwch am y Gwardwr. Mentwrn ddweud amdano gan gredu y gall Duw ddefnyddio'n tystiolaeth, er i ni o bosibl beidio â deall sut yn union y digwydd hynny na phwy a fydd yn ymateb i'r dystiolaeth honno.

## Nant Ffrancon

### Capel Nant y Benglog

Trefn y Gwasanaethau (am 2.00yp.)

Tachwedd 17: Oedfa.

Tachwedd 24: Mr. Tudur Hughes.

Rhagfyr 01: Parchg. Cledwyn Williams.

Rhagfyr 08: Oedfa.

Rhagfyr 15: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.

Rhagfyr 22: Gwasanaeth Nadolig.

Croeso cynnes i bawb.

I hysbysebu yn Llais Ogwan,  
Neville Hughes 600853

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415

Neville Hughes ☎ 600853

## ANNWYL OLYGYDD

### Annibyniaeth i Gymru

Prin y mae modd osgoi cael eich dal yng ngolwg y cyfryngau cymdeithasol y dyddiau hyn! Aethom ni a nifer dda o'n cyd-ardalwyr o Fethesda ar orymdaith AUOB Cymru dros annibyniaeth ym Merthyr Tudful ar y seithfed o Fedi eleni, ac fe'n gwelwyd yn gorymdeithio ger Stryd Bethesda yn y dref honno. A dyna brofiad oedd mynd o Fethesda yr holl ffordd i Stryd Bethesda!

Yr oedd bod yno yn brofiad nodedig iawn, fel yn wir y profiad blaenorol yn yr orymdaith yng Nghaernarfon ddiwedd Gorffennaf. Ym Merthyr, cafwyd areithiau grymus iawn gan yr holl siaradwyr - dim byd ymfflamychol yn addo tân a brwmstan niweidiol - ond yn hytrach ymresymiaidau adeiladol, doeth a di-emosiwn yn cadarnhau pam ei bod yn angenrheidiol i Gymru

weithredu i ennill yr hawl i fod yn wlad annibynnol o Loegr.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod Prydain Fawr bellach yn undod drylliedig a bleidleisiodd o drwch blewyn ystadegol i fod yn wlad dlotach, a Chymru - a dderbyniodd yn eithriadol hael o goffrau'r Undeb Ewropeaidd - yn dilyn yn wasaidd y cymydog Seisnig i adael Ewrop. Nid felly yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'u pleidlais adeiladol hwy yn sicr o arwain at annibyniaeth yr Alban ac uno de a gogledd Iwerddon. Heb annibyniaeth, y rhagolwg yw y byddai

Cymru yn aros yn wasaidd fel rhanbarth bach ymylol ym mhoced din Lloegr i dderbyn y briwsion gan lywodraeth genedlaetholgar adain dde sydd bellach yn barod i anghofio canonau democratiaeth ac i herio cyfraith gwlad. Ai dyma'r rhagolwg y mae pobol Cymru yn ei ddeisyfu? Bellach, mae'n ofynnol i ni benderfynu ar lwybr gwahanol a wnaiff arwain at annibyniaeth ac at wlad decach sy'n parchu pawb sy'n

byw ynddi, waeth pwy ydynt. Nid breuddwyd mo hyn ond yn hytrach y realiti y gall hyn ddigwydd drwy rym ewyllys, cyd-drafod, dyfalbarhad ac yn bwysicach oll yr hyder a'r ymddiriedaeth y gallwn lwyddo. Dyna oedd byrdwn araith y gŵr o'r Alban, sef bod yn rhaid i ni ennill ein hunan-barch ac ymgyrchu yn amhleidiol ac yn ddi-drais nes cyrraedd y nod. Mae'n arwyddocaol fod arolwg barn YouGov yn dangos y byddai 41% o boblogaeth Cymru bellach yn cefnogi annibyniaeth petai hynny'n golygu bod Cymru yn gallu parhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ffigur y byddai'n anodd ei ddychmygu ddwy flynedd yn ôl hyd yn oed. Y nod yw Cymru yn wlad annibynnol yn Ewrop ond gyda chysylltiadau o gydweithredu'n rymus â Lloegr a gwledydd eraill, ond yn rhydd i wneud ei phenderfyniadau ei hun.

Ymunwch felly ag ymgyrch amhleidiol YesCymru a dowch i orymdaith nesaf AUOB Cymru yn y flwyddyn newydd a fydd

yn Wrecsam ar y 18fed o Ebrill. Yn y cyfamser, ewch i edrych ar y cyfryngau cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch ym Methesda ac yn genedlaethol! Mae cangen o YesCymru ym Methesda: facebook.com; yescymrubethesda@gmail.com YesCymru yn genedlaethol: cy.yes.cymru; @YesCymru AUOB Cymru: facebook.com/auobcymru; @AUOB Cymru



## Ceisiadau am Nawdd Ariannol

### Hysbysiad Pwysig

Mae

**CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI**  
yn gwahodd

ceisiadau am nawdd ariannol gan  
Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Cysylltwch am ffurflen gais a bydd angen  
ei ddychwelyd gyda'ch Mantolen Ariannol  
ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc  
cyn **31 Rhagfyr 2019**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:

Bethan Roberts,

Cyngor Cymuned Llandygai,

26 Stryd Fawr,

Bethesda, LL57 3AE.

01248 602131

E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

## Ceisiadau am Nawdd Ariannol

### Hysbysiad Pwysig

Mae

**CYNGOR CYMUNED BETHESDA**  
yn gwahodd

ceisiadau am nawdd ariannol gan  
Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich  
Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd  
â manylion eich banc at y Clerc cyn  
**31 Rhagfyr 2019**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:

Donna Watts,

Cyngor Cymuned Bethesda,

26 Stryd Fawr,

Bethesda, LL57 3AE

01248 602131

E bost: cyngorbethesda@ogwen.org

## Ceisiadau am Nawdd Ariannol

### Hysbysiad Pwysig

Mae

**CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID**  
yn gwahodd

ceisiadau am nawdd ariannol gan  
Gymdeithasau/Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich  
Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â  
manylion eich banc at y Clerc cyn  
**31 Rhagfyr 2019**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:

Donna Watts,

Cyngor Cymuned Llanllechid,

26 Stryd Fawr,

Bethesda, LL57 3AE

01248 602131

E bost: cyngorllanllechid@ogwen.org

## Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),  
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192  
Angharad Williams,  
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

### Cangen Tregarth o Ferched y Wawr, nos Lun, Hydref 7

Braf iawn oedd gan y Llywydd, Myfanwy Harper, groesawu pawb i Festri Capel Shiloh ac yn arbennig i rai aelodau newydd oedd yn ymuno â'r gangen am y tro cyntaf. Noson yng nghwmni Alan Pritchard o Rhostrehwfa, Ynys Môn, ddaeth i'r gangen i siarad am ei waith ef a'i briod yn gweithio am gyfnodau yn ystod y flwyddyn mewn pentref yn Kenya ar gyfandir Affrica, sef Omwabini. Ers bron i ddeng mlynedd bellach mae Alan wedi bod yn rhoi cefnogaeth i drigolion y pentref drwy godi arian a mynd draw yno i adeiladu tai gyda'r brodorion ac hefyd i roi system ddŵr yn ei lle. Drwy gyfrwng lluniau cawsom weld ffrwyth y gwaith a chyfarfod â theuluoedd y rhoddwyd help ymarferol ac ariannol iddynt i wneud eu bywydau yn fwy cysurus. Mae'r prosiect yn un hir-dymor a'r gobaith yw gwella a rhoi gobaith i wahanol gymunedau yn yr ardal. Braf oedd medru helpu Alan drwy wneud casgliad at y gwaith yn ystod y noson.

Diolchwyd gan Gwenda ar ran y gangen a gwnaed y banded gan Jên, Iona a Delyth.

Enillydd y gystadleuaeth am Artefact Affricanaidd oedd Moira Farmworth.

### Capel Shiloh, Tregarth

Gyda thristwch y daeth y newyddion am un o aelodau ffyddlonaf Capel Shiloh, sef Mrs Edith Hughes, Erw Faen gynt, fu farw yng Nghartref Nyrzio Ceris Newydd, Treborth ar Hydref 14, yn 99 mlwydd oed. Edith oedd blaenor hynaf Shiloh ac yn ei thro bu'n ysgrifennydd a thrysorydd y Capel am flynyddoedd. Roedd ei theulu gyda chysylltiad â Shiloh ers pum cenhedlaeth. Er na chawsom ei chwmni yn yr oedfaon ers rhai blynyddoedd gwelwyd bwllch mawr ar ei hol. Roedd yn briod â'r diweddar Joseph Andrew ac yntau yn aelod ffyddlon yn Shiloh. Cydymdeimlwn gyda Arwel, Gwyn a theulu ei diweddar fab Richard a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain a hen-hen nain gariadus ac annwyl. Bu ei hangladd preifat yn Amlogsgfa Bangor, Dydd Llun, Hydref 28.

### Yn yr Ysbyty

Gwellhad llwyr a buan i ddau o'r aelodau sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd, sef Dennis Vaughan Griffiths, Llanllechid a Wynne Roberts, Bryn Difyr, Tregarth. Bu Mrs Noreen Jones, Bethesda yn yr Ysbyty yn ddiweddar a da yw clywed ei bod yn gwella.

### Drws Agored

Mae drws agored yn Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 o'r gloch a 12 o'r gloch. Cofiwch alw i mewn am banded, sgwrs a chwmni.

Mae'r arian sydd yn cael ei gyfrannu gan y rhai sydd yn mynychu Drws Agored wedi cael ei rannu yn ddiweddar tuag at Gronfa sydd yn cefnogi bachgen o'r pentref, sef Morgan, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Alder Hey a thuaag at Caffi Deinol sydd yn paratoi bwyd a chysur i'r digartref ym Mangor. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

### Gwasanaethau Shiloh

#### Oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol

Tachwedd 17: Gwynfor Williams, Caernarfon

Tachwedd 24: Gwyndaf Jones, Bangor

Rhagfyr 1: Richard Gillion

Rhagfyr 8: Dafydd Hughes, Caernarfon

Rhagfyr 15: Gwynfor Williams, Caernarfon

Rhagfyr 22: Oedfa Deulu y Nadolig yng

nghwmni Jennie Hurd

Rhagfyr 29: Trefniant Lleol

### Canolfan Tregarth

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Canolfan Tregarth nos Fercher 20 Tachwedd 2019 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan.**  
**Croeso i bawb.**

### Clwb Cant Canolfan Tregarth

*Mis Medi*

57 Peter Roberts £15

24 Emlyn Thomas £10

2 Owenna Thomas £5

*Mis Hydref*

40 Sulwen Roberts £15

34 Olwen Jones £10

43 Peter Jones £5

### Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Tachwedd 17 Ymuno ag Eglwys Crist,  
Glanogwen

Tachwedd 24 Cymun Bendigaid 9:30 y.b.

Rhagfyr 1 Boreol Weddi

Gwasanaeth Adfent 4 y.p.

Rhagfyr 8 Cymun Bendigaid

Oherwydd y sefyllfa ar y funud, efallai bydd amser gwasanaethau yn gorfod newid weithiau. Bydd yr amseroedd ar yr hysbysfwrdd.

Cafwyd gwasanaeth ffarwelio'r Parch Christina McCrea yn St Cedol ar Hydref 20fed ac wedyn gwasanaeth ffarwelio'r Parch John Matthews yn St Tegai ar Hydref 27ain. Pob bendith i'r ddau.

Ar Hydref 11eg priodwyd Lona Lewis ag Andrew Bramham - llongyfarchiadau mawr iddynt.

## YSGOL BODFEURIG

### Ymweliad Sain

Cafodd plant dosbarth Ogwen y fraint o recordio can a CD gyda'r Welsh Whisperer yn ystod ymweliad i stiwdio Sain Dydd Llun Hydref 21ain fel rhan o ddathliadau'r cwmni yn 50 mlwydd oed. Roedd pawb wedi mwynhau cymryd rhan yn yr holl weithgareddau, ymweld â'r stiwdio a dysgu mwy am hanes y cwmni ac amryw o artistiaid. Cyfle bythgofiadwy i bob plentyn.



### Bedydd Lola

Roedd cyffro mawr yn yr ysgol fore Dydd Mawrth Hydref 8fed gan fod y diwrnod

mawr wedi cyrraedd, diwrnod bedydd Lola y babi dol. Fel rhan o thema Dosbarth Idwal mae'r plant wedi bod yn dysgu am ddathliad hapus o fedyddio plentyn. Aeth y plant ar y bws i Eglwys Santes Mair a'r Santes Ann ym Mynydd Llandegai lle cafwyd croeso mawr gan y gweinidog Tad John. Cafodd pawb cymryd rhan yn wasanaeth bedydd Lola gyda'r rhieni a rhieni bedydd yn cytuno i ofalu am Lola. Ar ôl y gwasanaeth aeth pawb yn ôl i'r ysgol i gael parti bedydd. Roedd gwên mawr ar wynebau pawb wrth iddynt ddawnsio, bwyta a mwynhau.

### Cyngor Eco

Cyn yr gwyliau haf, bu plant yr ysgol yn brysur yn plannu llysiau yng ngardd yr ysgol. Erbyn mis Hydref, roedd y llysiau wedi tyfu ac yn barod i fwyta. Ar ôl casglu'r llysiau roedd rhaid meddwl beth i goginio. Aeth y cyngor Eco ati i gasglu syniadau a phenderfynwyd coginio cawl llysiau a'i werthu i blant yr ysgol er mwyn casglu arian i brynu llestri i'w hail-ddefnyddio ar gyfer unrhyw ymgyrch yn y dyfodol. Penderfynwyd gwneud hyn gan mai un o flaenoriaethau'r cyngor yw lleihau plastig a phapur yn yr ysgol. Felly, Dydd Iau

Hydref 24ain, cyrhaeddodd y plant i'r ysgol gyda'u arian, powlen a llwy yn barod i fwyta llond eu bol o gawl iach oedd wedi cael ei baratoi gan y cyngor Eco. 'Blasus iawn' oedd ymateb y disgyblion.

### Gwasanaeth Dosbarth Ogwen

Cafodd plant a rhieni'r ysgol wledd Dydd Gwener Hydref 25ain yn gwrando ar wasanaeth dosbarth Ogwen. Braf oedd clywed plant yn siarad yn hyderus am beth roeddynt wedi dysgu am yr holl ryfeddodau byd a pa mor bwysig yw edrych ar ôl y byd. Cafodd y plant hefyd y cyfle i arddangos eu gwaith cartref o ryfeddodau'r byd. Am waith gwych!!

### Gwasanaeth Dosbarth Idwal

Yn dilyn gwasanaeth bedydd Lola y babi dol cafodd y plant y cyfle i ddangos eu gwaith paratoi a'r gwasanaeth bedydd i'w rhieni yn ystod gwasanaeth dosbarth bore Dydd Iau Hydref 17eg. Roedd gwledd o ganu a dawnsio a gwên ar wynebau pawb.

### Dyddiadau i'r dyddiadur:

Ffair Nadolig – Tachwedd 28ain



## Bro360 ar daith yn y dyffryn

Yn ystod y mis diwethaf, mae bro360 wedi bod yn brysur yn dechrau casglu straeon yn y dyffryn ac yn gweithio ar elfennau newydd i'w cynnwys ar Ogwen360.cymru – gan gynnwys calendr digidol.

O fewn yr wythnosau nesaf, fydd 'na galendr digidol i'w gael ar y wefan. Bydd hwn o fantais i'r gymuned gyfan, ac yn agored i unrhyw un ychwanegu digwyddiad iddo. Yr oll fydd rhaid ei wneud i ychwanegu digwyddiad, neu i ychwanegu stori ar y wefan, yw ymuno ag Ogwen360. Os oes angen help ar unrhyw un i wneud hyn, mae 'na ddwy fideo ar sianel Youtube 'bro360', sydd yn rhoi cyfarwyddiadau cam-wrth-gam.

Yn ystod mis Tachwedd, bydd bro360 yn mynd ar daith o amgylch sawl mudiad yn y dyffryn er mwyn dangos y wefan, ac i drafod y fantais o'i defnyddio. Byddwn hefyd yn creu cynnwys yn fyw o 'steddfod Dyffryn Ogwen felly dewch draw i ddweud helo!

Os hoffwch i Bro360 ymweld â'ch mudiad chi, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda Guto ar gutojones@golwg.com.



Bydd Emyr a Heulwen, Ystradawel, Ffordd Bangor yn rhoi rhodd i'r elusen [crisis.org.uk](http://crisis.org.uk) eleni yn hytrach nag anfon cardiau Nadolig. Hoffem ddimuno Cyfarchion y Tymor a Blwyddyn Newydd Dda i'n Teulu, Ffrindiau a Chymdogion i gyd.





## Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,  
Llandygái, Bangor LL57 4HU  
☎ 01248 354280  
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,  
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU  
☎ 01248 351633

### Eglwys Sant Tegai, Llandygai

#### Diolch

Fel eglwys, hoffem ddiolch i Hazel Jones a'r merched am eu gwaith yn addurno'r adeilad ar gyfer Diolchgarwch eleni. Roedd lliwiau'r Cynhaeaf yn hardd iawn. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd gymaint at fanc bwyd y Gadeirlan ac i Nerys Jones am ddanfôn yr eitemau.

#### Gwasanaeth Ffarwel

Roedd Eglwys St Tegai yn orlawn ar Hydref 27ain wrth i eglwysi Bro Ogwen ddod ynghyd i ddweud ffarwel a dymuno'n dda i John a Sue Matthews.

Fel y datgelwyd yn rhifyn Hydref o'r Llais, daeth y newydd o ymddiswyddiad y Parchedig John Matthews ar ei apwyntiad i blwyf Havelock North, Seland Newydd yn sioc i bob eglwys ym Mro Ogwen. Ar ôl bron i ddeg mlynedd yn yr ardal teimlodd yr alwad i wasanaethu Duw yr ochr arall i'r byd - cam o ffydd wrth adael teulu, ffrindiau a bywyd llawn yn y dyffryn. Mae ei ymdrechion di-flino i greu, arwain a chynnal un teulu eglwysig yn yr ardal o dan amgylchiadau ariannol anodd wedi bod yn ysbrydoliaeth. Diolchwn hefyd am ei waith caled fel cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandygai. Rhaid peidio anghofio ymdrechion Sue, ei wraig, sydd wedi llenwi swydd gweinyddwraig yr Ardal Gweinidogaethol ers y cychwyn. Bydd colled enfawr ar eu hôl ond erys y cof am yr hiwmor bywiog, y brwdfrydedd a'r gofal diffuant oedd yn nodweddiadol o'u cyfnod gyda ni. Dymunwn pob lwc ac hapusrwydd iddynt.

#### Bingo'r eglwys nos Iau Tachwedd 21ain

Bydd noson Bingo yr Eglwys ar nos Iau, Tachwedd 21ain am 7.00 yn Neuadd Talgai. Dewch yn llu i fwynhau'r hwyl!

#### Blodau'r Nadolig

Cynhelir prynhawn o arddangos a threfnu blodau yn effeithiol gan Mrs Barbara Murcutt (gynt o Barbara's Flowers, Bangor) am 2 y.p. ar ddydd Sadwrn Rhagfyr 7fed yn Neuadd Talgai. Rhagwelir prynhawn difyr a diddorol pan gawn gyfle i fwynhau medrusrwydd a dawn Barbara i greu awyrgylch gyda blodau. Bydd y pris mynediad yn cynnwys lluniaeth ysgafn.

#### Gwasanaethau - Tachwedd Eglwys Sant Tegai

Tachwedd 17eg - Dim gwasanaeth yn St Tegai. Gwasanaeth Plwyfol yn Eglwys Crist, Glanogwen gyda'r Esgob Andy am 11.00 y.b. Tachwedd 24ain - Boreol Weddi am 9.30 y.b.

# CHWILAIR

## C'MON MIDFFILD

A	S	O	N	Y	N	O	R	D	A	L	L	A	W	F	H	R	I	E	J
L	D	Y	B	Y	N	Y	B	R	E	N	Y	R	I	W	G	Y	D	C	M
B	V	B	H	X	D	R	J	U	I	S	V	S	H	E	I	D	M	G	V
M	H	M	D	W	Y	A	H	H	C	O	M	D	E	A	R	T	H	U	Z
M	A	X	V	A	D	T	H	Y	D	N	A	P	A	Y	U	Q	U	S	O
F	R	T	P	Y	Q	E	R	N	F	Z	G	R	F	H	C	U	M	W	N
O	Y	R	C	I	A	S	A	I	Y	E	Z	F	U	T	F	D	X	U	P
W	R	H	C	H	Q	H	W	R	P	F	L	E	H	O	Y	E	E	G	E
O	M	H	E	P	O	T	T	C	A	E	Y	C	B	B	C	U	U	J	P
L	T	M	I	V	V	D	D	C	G	W	B	H	A	B	F	R	F	O	G
J	V	I	I	R	R	X	D	R	I	M	H	H	N	R	H	T	T	O	S
K	O	P	W	R	C	M	I	Y	K	C	B	C	C	N	T	O	R	C	X
V	R	Y	H	S	T	D	M	R	D	E	F	Y	S	A	Y	R	J	D	Z
H	B	C	W	O	D	S	C	R	A	E	I	X	N	E	B	I	A	L	X
J	J	M	B	Y	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	A	M	P	C	Q
Y	O	I	W	B	R	Y	N	O	B	R	I	T	E	N	L	M	A	F	E
R	Z	R	Q	R	O	C	T	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	A	M	J
K	T	J	<del>H</del>	<del>C</del>	<del>O</del>	<del>C</del>	<del>N</del>	<del>Y</del>	<del>R</del>	<del>B</del>	<del>G</del>	<del>I</del>	<del>L</del>	<del>O</del>	<del>D</del>	<del>A</del>	<del>N</del>	<del>C</del>	<del>O</del>
L	N	L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L
F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z

Yn y chwilair mis yma mae DEUDDEG TEITL RHAGLENNI C'MON MIDFFILD i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn RHAGFYR 2. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Roedd eich atebion chi, Barbara Anne Conlan, ddau ddiwrnod yn hwyr yn cyrraedd trwy'r post er fod yna stamp dosbarth cyntaf ar yr amlen, mae hyn yn digwydd i nifer ohonoch, felly peidiwch a gadael y postio tan y munud diwethaf. Teitlau y rhaglen

C'mon Midffild sydd dan y chwydd-wydr y mis yma. Gobeithio cewch hwyl wrth gofio am Wali a'i gyfeillion. **Dyma atebion Hydref:** Bisgedi; Bwrdd Gwerthu; Canolfan Cefnfaes; Cymdeithasu; Elusenau; Gwobrau; Llefrith; Mudiadau; Paned o De; Raffl; Siwgr; Tâl Mynediad. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Shaun Osian Hughes, Rhes Tabernacl; Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Mrs Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda; Mair Jones, Ffordd Bangor; Gwenda Bowen, Gerlan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Merfyn a Laura Jones, Penisa'r Allt, Halfway Bridge; Doris Shaw, Bangor; Elfed Bullock, Maes y Gamedd; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch.

I bawb a fu yn anlwcus y mis diwethaf, gwell lwc y mis yma, Andre. **Enillydd Hydref oedd:-** Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, Bethesda.

# Atodiad Hysbysebion

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Gwasg Ffrancon

## Argraffwyr

Dôl Ddafydd,  
Bethesda  
LL57 3LY  
Llun-gopiö lliw llawn

Ffôn: 01248 601669  
Ffacs: 01248 602634  
gwasgffrancon@btconnect.com

## RHIF 68

Siop Bwydydd Cyflawn  
Bethesda (68 Stryd Fawr)

Oriau Agor  
Dydd Iau a Gwener: 3.00 – 7.00  
Dydd Sadwrn: 10.00 – 4.00

Galwch i mewn am amrywiaeth eang  
o nwyddau iachus - i chi a'r blaned!  
Ymunwch â ni ar facebook  
"Bethesda Wholefood Co-op"

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

**A.G.L.**  
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a  
selio lloriau coed caled,  
adnewyddu lloriau  
gwreiddiol a chyweirio  
lloriau sydd wedi eu  
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.  
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

BARBWR OGWEN



75 Stryd Fawr,  
Bethesda

Mae Alison yn dymuno Nadolig  
Llawen a Blwyddyn Newydd  
Dda i'w chwsmeriaid i gyd.

Diolch am eich cefnogaeth  
drwy'r flwyddyn



## CAFFI FITZPATRICKS

Rhes Ogwen, Bethesda  
Ffôn : 01248 602416

Bwyd i'w fwyta i mewn  
neu i'w gario allan



Balconi ar Agor  
Golygfeydd o Barc Meurig ac Afon Ogwen

### Oriau Agor y Gaeaf

Dydd Gwener 9.00 y bore – 3.00 y pwnn

Sadwrn 9.00 y bore – 5.00 y pwnn

Sul 9.00 y bore – 4.00 y pwnn

Cau **22 Rhagfyr** dros Wyliau'r Nadolig  
Ail agor **Dydd Gwener 10 Ionawr 2020**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl  
gwsmeriaid. Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

# JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NE  
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:  
**01248 601754**  
07770 568743 (symudol)



## E S a M W Williams Optegwyr

310 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1UL  
Ffôn: 01248 354949

Gofal llygaid proffesiynol a phersonol i'r teulu oll.  
Yn arbenigo mewn lensys cyffwrdd a golwg gwan.  
Dewis eang o fframiau ffasiynol a'r lensys  
diweddaraf.

## Prydau Tsieineaidd

(i'w bwyta allan)  
Junction

11 Stryd Fawr, Bethesda

**01248 342566**

## Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel  
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr  
Bangor  
Gwynedd  
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol  
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni      Amlwch      Benllech  
(01248) 723106    (01407) 831777    (01248) 852782

Caernarfon      Pwllheli  
(01248) 673616    (01758) 703000

## TRENDS

Trin gwallt merched a dynion

Rhes Victoria  
Bethesda  
01248 600988

**Diolch am eich cefnogaeth  
Nadolig Llawen**

## Gareth Williams Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707  
**GWASANAETH DYDD A NOS**

# Shirin's

## BWYTY INDIAIDD

(Bwyta i mewn neu allan)  
9 Stryd Fawr, Bethesda  
Tel: 01248 209772

Ar agor 7 diwrnod yr wythnos  
4.30 - 10.00

Mae Shirin's yn fwyty BYO,  
sef bwyty "Dewch a'ch  
alcohol eich hunain".

Wi-fi yn rhad ac am ddim"

Mae croeso cynnes yn

## Y Siôr

Carneddi

gan Dewi a'r criw

Cwrw traddodiadol Cymreig  
Tân braf - Amser difyr

Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd Dda i  
bawb

## CAFFI SEREN Bethesda

Oriau agor  
Llun i Gwener : 8.30yb - 4.00yp  
Dydd Sadwrn : 9.00yb - 3.30yp  
Dydd Sul : 10.00yb - 2.30yp

\*\*\*

**Bwyd Cartref  
Traddodiadol**

**Partïon i Blant**

\*\*\*

**01248 600661**

*Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth John a'r Staff*

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Oddi wrth holl Gynghorwyr  
Plaid Cymru yn Nyffryn Ogwen

**Y Cyngorydd Paul Rowlinson**  
(Cyngor Gwynedd - Ward Gerlan/Rachub)  
01248 605365

**Y Cyngorydd Rheinalt Puw**  
(Cyngor Gwynedd - Ward Ogwen)  
07789 742092

**Y Cyngorydd Dafydd Owen**  
(Cyngor Gwynedd - Ward Llandygai)  
01248 605523

**Y Cyngorydd Dafydd Meurig**  
(Cyngor Gwynedd - Ward Arllechwedd)  
00765 400140

Hefyd ein holl Gynghorwyr ar Gyngorau  
Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai

## Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn  
meysydd awyr  
Cludiant Preifat  
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475  
www.owenswales.co.uk

**Ymgymwrwr adeiladu a  
gwaith saer**

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid  
Bethesda

**☎ 01248 601052**





## Siopa Nadolig yn Siop Ogwen

Crefftau, Celf, Gemwaith ac arhegion unigryw o Ddyffryn  
Ogwen a'r cyffiniau  
Ystod eang o lyfrau, cerddoriaeth a dvds Cymraeg

Gellir archebu llyfrau'r Nadolig gennym a dewch i'n gweld  
mewn Ffeiriau Nadolig lleol dros y mis nesaf.

### Noson Siopa Hwyr

Bydd Siop Ogwen a nifer o fusnesau Stryd Fawr Bethesda  
ar agor ar y 20 fed o Dachwedd  
5-8pm

Croeso Cynnes i Bawb!

## MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd  
Atgyweirio MOT  
Gwasanaethu Cerbydau  
Cydbwysio Teiars  
Batris  
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com  
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,  
Gwynedd LL57 4AY



## Contractwyr Trydanol

### Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: [info@jonesandwhitehead.co.uk](mailto:info@jonesandwhitehead.co.uk)



## Siop y Pentref Rachub

 01248 600224

**DEWIS HELAETH O  
NWYDDAU**

Bwydydd ♦ Papurau Newydd  
♦ Da-da ♦ Cardiau ♦ Diodydd - Gwinoedd a  
Gwirodydd.

Hyn i gyd mewn awyrgylch cyfeillgar a  
chroesawus

Hefyd

Peiriant Arian Parod (Heb Dâl),  
Gwasanaethau'r Swyddfa Bost, Loteri.

*Mae Iain, Janet a Rebecca yn dymuno Nadolig  
Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl  
gwsmeriaid hen a newydd.*


### Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

**Prynwch danysgrifiad i Llais Ogwan,  
Yr anheg Nadolig delfrydol**

Gwledydd Prydain - £22  
Ewrop - £30  
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las,  
Bethesda, Gwynedd LL57  
3NN

[post@llaisogwan.com](mailto:post@llaisogwan.com)

 01248 600184



## PEN Y CEUNANT ISAF

Y BWTHYN TÉ  
[www.snowdoncafe.com](http://www.snowdoncafe.com)

Llwybr Yr Wyddfa  
Llanberis  
LL55 4UW  
01286 872 606



# MODURDY FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
A. Ll. Williams

**Stryd Fawr, Bethesda**  
◆ PROFION M.O.T. ◆

**GWASANAETH ◆ ATGYWEIRIO**  
◆ TEIARS A BATRIS ◆  
**GWASANAETH TORRI I LAWR**  
**NEU DDAMWAIN**

☎ 600723  
Ffacs: 605068

## Jamiau Cartra' ar Werth

Mwyar Duon, Cwsberis  
Mwyar Duon ac Afal  
Jeli Mwyar ac Afal  
Llus a Riwbob, Mefus  
Cyrens Duon  
Cyrens Cochion  
Riwbob a Sunsur  
ac eraill

Hefyd pecynnau Nadolig  
Elw at elusennau  
ac achosion lleol

Ffoniwch Angharad a Neville ar  
600853

## Anghenion Swyddfa Gwynedd Cyf.

320 Stryd Fawr,  
Bangor  
Gwynedd LL57 1YA

**Dewch draw am sbec**  
**Prisiau cystadleuol**  
**neu ffoniwch**  
**01248 715151**

E-bost:  
gwyneddoffice@btconnect.com  
hefyd  
ymholiadau@anghenion swyddfa.cymru

Cerbydau Penrhyn  
**CABIAU A BYSIAU MINI**  
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr : Porthladdoedd  
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth  
Ambiwlans Gogledd Cymru



**electricals**  
andrew duggan

Atgyweiriadau teledu a fideo,  
offer sain, derbynwyr lloeren.  
Hefyd gwerthiant a gwasanaeth

34 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AN  
Ffôn/Ffacs 01248 602584

**BYSUS**  
*D. J. Owens*  
**RHWLAS**

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

**Bysus Gwyrdd Rhlwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Croeso i Dafarn **Y FICTORIA**

Stryd Fawr, Bethesda  
01248 600997

**\*Cwrw go iawn\***  
**\*Prisiau Rhesymol\***

\*\*\*\*\*

hefyd  
**BYNCWS TRADDODIADOL**

\*\*\*\*\*

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda i bawb



## Modurdy Central

**M.O.T. ar gael**  
**Hefyd**  
**Trwsio a Gwasanaeth**  
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**  
☎ 601031

**Cyfarchion y Nadolig**  
**oddi wrth Gynghorwyr y**  
**Blaid Lafur**

### Bethesda

Pearl Evans, Rachub 600153  
Godfrey Northam, Rachub 600872  
Walter Williams, Ogwen 601167

### Llandygai

Gwen Griffith, Mynydd Llandygai /  
St. Anne's (601081)

## CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau,  
cloeau, bachau, twll llythrau ac  
unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Croeso Cynnes i'r

## Royal Oak

Rachub  
oddi wrth  
Alison a'r criw

gan ddymuno  
**Nadolig Llawen a Blwyddyn**  
**Newydd Dda i bawb**

**Copa**  
Cynhyrchwr a Gwasanaethwr  
Llawen a Phlant

**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

**Bethesda 600094**  
Yn arbenigo mewn trin gwallt  
merched, dynion a phlant.  
Cynghori, gosod a thorri wigiau  
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio  
(rasal "cut throat")



Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda  
oddi wrth Ann a Glyn



## Tafarn y Tarw

Bwyd ar gyfer angladdau, partiön,  
bedydd a.y.y.b.

☎600438

Diolch i'n holl gwsmeriaid yn  
ystod y flwyddyn ddiwethaf

## Marchnad Ogwen

**Tachwedd 20fed**  
Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm

**Rhagfyr 14eg**  
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

**Ionawr 11eg**  
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm  
Bwydydd, Creffttau, Lleol

[www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk)  
Facebook

Cyfarchion y Tymor  
oddi wrth Staff

## Fferyllfa BOOTS

Bethesda (600331)  
Diolch am eich cefnogaeth  
(Siop ar gau Rhagfyr 25 a 26)

Cofiwch Brynu

## Calendr Llais Ogwan



Yr anrheg Nadolig  
ddelfrydol

£4.00 yn y siopau lleol  
neu ffoniwch

**Walter Williams**  
01248 601167

## TESCO EXPRESS

"Every Little Helps"  
Stryd Fawr, Bethesda  
01248 489337

Ar agor  
7 diwrnod yr wythnos  
06.00 yb - 23.00 yh.  
(ac eithrio dydd Nadolig)  
Gwasanaeth "Clicio a Chasglu"

Diolch i'n cwsmeriaid

**Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda**

## SAMARIAID

Mac  
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng  
7.00pm ac 11.00pm

## Ann Jeanette

Nodwyddwraig  
34 Stryd Fawr, Bethesda  
☎ 01248 600377



Diolch yn fawr am gefnogaeth fy  
nghwsmeriaid drwy'r flwyddyn

## Nadolig Llawen

## CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

[karena@agoriad.org.uk](mailto:karena@agoriad.org.uk)

Bwyd cartref blasus  
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer  
partiön o bob math -  
plant, pen-blwydd ac ati  
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur  
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

## BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partiön  
o bob math - dathlu pen-blwydd  
ac achlysuron arbennig eraill.  
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

**Londri Coed y Brenin**  
wneud eich golchi

## Meithrinfa Ogwen Cyf.

☎ 01248 605555

Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda oddi wrth Delyth  
a'r staff i gyd

Clwb Ysgol Llanllechid

☎ 07899 794 135

## JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995



## Nadolig Llawen a lechyd Da

oddi wrth Griw  
Cwrw Ogwen.

Boed aea'  
neu ha' mae'n  
sobor o dda!



# Mabinogion

Stryd Fawr, Bethesda

☎: 600899

Pryd ar Frys  
Pysgod a Sglodion  
Pizzas ac ati



Diolch i'n holl gwsmeriaid  
am eu cefnogaeth

Sefydlwyd

1969

**m.hughes**  
**a'i fab**

## CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda  
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765  
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.*



Ffordd Pen-y-bryn, Bethesda

**Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth Catrin, Sue  
ac Anest**

**Diolch am eich cefnogaeth  
ar hyd y flwyddyn**

Rydym yn cynnig  
"Shellac", "Threading", "Party lashes",  
Gwallt a cholur priodas.  
Aeliau "HD Eyebrows"

Am ragor o fanylion am ein holl  
driniaethau, neu i wneud apwyntiad  
Galwch: 01248 600861  
serenahairandbeauty@gmail.com

## DŴR Y MYNYDD Prydau Tsieineaidd

(i'w bwyta allan)

7 Rhes Ogwen, Bethesda

**01248 601248**

Ar agor bob dydd : 5yh – 10yh  
(heblaw dydd Mawrth)

Cyfarchion y Tymor oddi wrthym  
ni ac oddi wrth yr Olchfa



## CROCHENDY BETHESDA

Stiwdio Crochenwaith ac Oriel Celfyddyd Gain  
40 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd, LL57 3AN  
07952153955

[www.iandodgsonfinearts.co.uk](http://www.iandodgsonfinearts.co.uk)

## J TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,  
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.  
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

**07770 900531**

**01248 600282**

[jtemplemorris@btinternet.com](mailto:jtemplemorris@btinternet.com)

# Londis Bethesda

☎ 01248 605566

**Ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**

- ◆ Awyrgylch Cyfeillgar a Hapus ◆
- ◆ Bwydydd Poeth ◆ Bara Ffres ◆ Eich Holl Anghenion ◆
- ◆ Loteri Cenedlaethol ◆ Paypoint ◆ Peiriant codi arian di-dâl
- ◆ Swyddfa post

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid**

## DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
losgi coed

**01248 605207**

**L. Sturrs**  
**a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

## ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,  
Ffordd y Stesion, Bethesda

**Ffôn: 600953**

[lsturrs@googlemail.com](mailto:lsturrs@googlemail.com)

## POPTY BAKERY



Sefydlwyd 1900

Rachub, Llanllechid (01248) 600517

Nadolig Llawen  
a Blwyddyn  
Newydd Dda



## Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw  
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

**ORIAU AGOR**

Llun - wedi cau

Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

[douglasarmsbethesda.com](http://douglasarmsbethesda.com)

**01248 600219**





# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

## STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA  
GWASANAETH PERSONOL  
PEDAIR AWR AR HUGAIN  
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976

Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

## Ogwen

Adferiad Corfforol  
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,  
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein

© 07743373895 ☎ Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

## TRYFAN AGRI

### PEIRIANNAU AMAETHYDDOL A THIROFAL

\* LLIFIAU CADWYN A CHYNYRCHION ECHO

\* DARNAU AC OFFER I DRACORAU  
A PHEIRIANNAU FFERM

\* OFFER HOLLTI COED

\* OLEW A SAIM

PEIRIANNAU TORRI GWAIR A GWYRYCHOEDD

... A LLAWER MWY

Am fwy o fanylion, cysylltwch a ni  
ar y rhifau isod

UNED 2, STAD DDIWYDIANNOL PANTDREINIOG,  
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3LP

01248 600103 NEU 07891 172649  
www.tryfanagri.co.uk

## Marchnad Ogwen

### Dwy Farchnad Nadolig yn Neuadd Ogwen

\* \* \* \* \*

#### Nos Fercher, 20 Tachwedd

5.00 – 8.00yh

gyda **BONCATHOD** yn diddanu

\* \* \* \* \*

#### Bore Sadwrn, 14 Rhagfyr

9.30 – 1.00yp

gyda **HOGIAU'R BONC** yn diddanu

\* \* \* \* \*

*Dyma ddau gyfle gwych i wneud  
eich siopa Nadolig – heb anghofio'r siopau lleol*

# Wärme HEATING

DOSBARTHWR LLEOL AR GYFER  
GWRESOGYDDION STORIO  
EFFEITHLON O'R ALMAEN



YN EFFEITHLON O RAN YNNI | DYLUNIAD MAIN | GWARANT 30 MLYNEDD

## RHEIDDIADURON TRYDAN



Y datrysiad perffaith i gymryd lle eich hen reiddiaduron storio neu system wresogi



- Gwresogi yn sydyn
- Rhaglennu 24/7
- Perfformiad uchel a Glân
- Rheoli pob ystafell yn annibynnol
- Yn gydnaws ag Economy 7
- Dim costau gwasanaethu a chynnal a chadw
- Yn cydymffurfio â Lot20
- Wedi eu gosod gan Osodwyr NICEIC Cymeradwyedig

**RHATACH NAG OLEW AC LPG**

**CYNNIG Y GWANWYN - 10%  
I FFWRDD WRTH NODI PAPUR BRO**



**ER MWYN TREFNU EICH AROLWG RHAD AC  
AM DDIM FFONIWCH OS GWELWCH YN DDA**

01248 371 730

07845 034 622

[www.warmeheating.co.uk](http://www.warmeheating.co.uk)





# Nyth y Gân

## Torri'r Coeden Hynafol

Hon wyddai am heneiddio o hafau  
Cyntefig ei phrifio;  
Hi a ddaliodd i ddeilio  
A bu fel hyn er cyn co'.



'The Woodcutters', paentiad gan  
John Linnell

## 'Gwell clwt na thwll'

Gwraig a gŵr ar eu gorau yn ceisio  
Cysur yn yr edau;  
Bu cuddiad y rhwygiadau  
A gwedd dwt i wisgoedd dau.

## Daear y Llwynog

Enllyn ni wêl yn unlle o edrych  
O odre'r cadarnle;  
Aflwydd a ddaw o'r safle  
Gan mor drwm a llwm yw'r lle.

## Sgwrsio

Hen esbonio dros banaid, a'u doniau  
Yn denu anwyliaid;  
Wrth y bwrdd yn druth di-baid,  
Eu twymo fesul tamaid.

## Darluniau

Dechrau'r flwyddyn daeth y blagar  
Ar y brig oedd uwch fy mhen;  
Ymhen amser deilen fyddai  
Wedi tyfu ar y pren.

Mor urddasol yr edrychai  
Yno'n dawnsio yn y gwynt,  
Yn bur araf ar y cychwyn  
Ond ar brydiau'n llawer cynt.

Bywyd gwyllt gysgodai tani  
Rhag yr haul a hefyd law,  
A phryfetach dreuliai'u hamser  
Wrth ei bôn ac yn y baw.

Buan iawn aeth amser heibio  
Nes i'r hydref ddod â'i gŵyn,  
Ac ymledodd hyd y tiroedd  
Wyn y barrug yn y brwyn.

Troi ei lliw a wnaeth y ddeilen,  
A delfrydol oedd i mi  
Yno 'mysg amrywiol liwiau,  
O! mor hardd edrychai hi.

Ond am gyfnod bu'r olygfa  
Hon i'w gweled yn y berth  
Cyn i'r noethni unwaith eto  
Ddod a dangos yno'i nerth.

*Dafydd Morris*

\* \* \* \*

## Llwyd y Berth

Gwasgod o liw llygoden - yn swatio  
Yn ei siwt mor gymen;  
Yn gryf ei big gwyrâ'i ben  
I godi pryf dan goeden.



## 'I'r Gad'

(cân gan Dafydd Iwan)

A fynwn i'n cynefinoedd - heddiw  
Ddiodeff croeswyntoedd?  
Â'n cenedl mewn drycinoedd  
Fel un rhoddwn ninnau floedd.

## Y Wennol Olaf

Y wennol dymhorol hwyr - yn oedi  
Cyn mudo yn drylwyr;  
Maith ei gwibdaith, hi a'i gŵyr  
A hynny'n ôl hen synnwyr.

## Tachwedd

Tachwedd ddaw i'r Carneddau,  
Y glwth â'i hen ysfa glau.  
Yn gaeth ymestynna'r gwyll  
I oer doeau'r awr dywyll  
Fel mynach o linach lwyd  
Unlliw â gwedd y Fronllwyd.  
Tachwedd sydd fel bedd byddin  
Yn gelain, a drain y drin  
Fel coron o gylch onnen,  
A'r pryf yn merwino'r pren.  
Clywch hunllef y dolefain,  
Y cuwch dros y meysydd cain,  
Breuddwyd â'i llwyd yn lledu  
Dros y bryn a'r dyffryn du;  
A goslef brudd crochlefain,  
Llais bore oer fel llys brain;  
Llaw drom ar war y domen,  
Sgrech o wynt ar ei hynt hen;  
Glaw â'i lwyd yn cuddio'r glyn  
I alaw rhyfelgri gelyn.

*Goronwy Wŷn Owen*

## Marchnad Ogwen

Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni yn ein Marchnadoedd Nadolig eto eleni. Mae'r gyntaf ar nos Fercher, Tachwedd 20fed o 5 tan 8 o'r gloch a'r llall fel arfer ar yr ail Sadwrn o'r mis sef Rhagfyr 14eg. Fe fydd y Boncathod yn canu carolau yn yr un nos a Hogia'r Bonc yn ein diddanu ar y Sadwrn. Mae ein diolch yn fawr iddynt am fod mor barod i gefnogi'r Farchnad leol hon. Diolch genod a hogia!

Yn anffodus, mae un neu ddau o'n cwsmeriaid wedi cael dirwy parcio yng Nghae Star - rhai stondinwyr hefyd. Rhaid talu rhwng 10.00 a 4.30. £1 am 4 awr neu £2 am fwy na'r 4 awr. Ni fydd rhaid talu am barcio yn y Farchnad Nos! Dewch yn llw!

Rydym angen rhai stondinau bwyd - yn enwedig bara.

Neville Hughes a'i jam sydd yn cynnal y Stodin Elusen yn y Farchnad nos a Chyfeillion Ysbyty Gwynedd ym Marchnad Rhagfyr. Y stondin nesaf sy'n rhydd yw Ionawr 2020.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan [www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk) ac ar facebook.

## Stodin y Mis - Siop Bethlehem

Dyma un o Stodinau mwyaf unigryw Marchnad Ogwen. Rania Alqass sy'n gyfrifol amdani ac mae hi yn dod o Fethlehem. Er ei bod wedi hen ymgartrefu yma efo ni yn Nyffryn Ogwen, nid yw Rania wedi anghofio ei gwreiddiau na'i chymuned ym Methlehem. Mae'r goeden olewydd yn hynod bwysig i'r bobl yno - yn wir, mae'n symbol cenedlaethol i Balesteina - fel ein cenhinen Bedr ni yma yng Nghymru. Nid yn unig y ffrwyth a'r olew sy'n bwysig ac yn cynnal y cymunedau, ond hefyd, mae pren y goeden arbennig yma yn hardd iawn. Dyma welir ar stondin Rania.

Ym Methlehem mae gweithwyr wedi creu cwmni cydweithredol o grefftwyr sy'n sicrhau gwaith yn y gymuned ac yn cefnogi Masnach Deg. Maent yn creu crefftiau o waith coed olewydd, crochenwaith a gemwaith ymysg pethau eraill. Trwy gefnogi a sicrhau gwerthiant i'r nwyddau, mae Rania yn rhoi cefnogaeth i'r cwmni a'i chymuned gartref ac o ganlyniad mae tua 100 o deuluoedd yn elwa. Ardderchog ynte! Dewch i weld nwyddau coed olewydd Rania sy'n arbennig o addas ar gyfer y Nadolig ac yn unigryw.



Nwyddau wedi eu llunio o goed olewydd

# Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

## Rhaglen lawn a mentrus

Mae'r côr ynghanol ymarferion ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen, ac erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn bydd canlyniad yr ymdrechion hynny'n hysbys i bawb. Byddwn yn arbrofi gyda darnau newydd eto eleni ac mae hynny'n brawf o barodrwydd y côr i gyflwyno darnau cyffrous a gwahanol i'n cynulleidfaoedd. O dan arweiniad Owain Arwel, mae'r côr wedi gwneud enw iddo'i hun fel un o'r corau mwyaf blaengar a mentrus yn y wlad.

Prawf pellach o ffresni syniadau'r côr yw'r cydweithrediad sy'n digwydd rhwng y côr a mudiadau eraill yn y gymuned. Fel y soniwyd y mis diwethaf, enghraifft nodedig o'r cydweithio hwn yw'r prosiect 'Perthyn' a wnaed ar y cyd â Siwan Llynor a Chastell

Penrhyn. Bydd rhan Siwan yn y prosiect yn cael ei ddirwyn i ben gydag arbrawf cerddorol arall a chanolbwynt yr arbrawf fydd Côr y Penrhyn ond bydd tri cherddor gwadd yn perfformio gyda ni gan gynnwys Patrick Rimes a Simon Humphries. Newydd da arall yw'r ffaith bod Caleb Rhys yn dod yn ôl atom o Goleg Cerdd Manceinion i fod yn rhan o'r arbrawf.

## Paentio Sŵn

Un agwedd o newydd-deb ein cyflwyniad fydd y syniad o berfformio gyda "Sound Painting" sef syniad a grëwyd gan ŵr o'r enw Walter Thompson a dylai unrhyw un sy â diddordeb mewn cysyniad o'r fath ymweld â gwefan y cyfansoddwr ar [www.soundpainting.com](http://www.soundpainting.com)

## Ymweliad y côr ag America

Fel y cyhoeddwyd cyn hyn mae'r côr wedi derbyn gwahoddiad am y pumed tro i berfformio yng ngŵyl Gymreig Gogledd America. Philadelphia fydd y gyrchfan y tro hwn ac mae disgwyl y bydd cynrychiolaeth dda o'r aelodau yn teithio i gynrychioli'r côr. Prawf pellach yw'r daith hon o boblogrwydd ac apêl Côr y Penrhyn i drefnyddion yr ŵyl a Gŵyl Cymry Gogledd America yw'r cyfle i bawb o dras Gymreig ar y cyfandir cyfan i ddod at ei gilydd i ddathlu eu hetifeddiaeth. Mae rhai Americanwyr yn hoffi ymfrostio yn eu tras Gymreig hyd yn oed mor bell yn ôl â chyfnod y Mayflower yn 1620 ac adeg gwladychu rhannau o Ogledd America gan bobl fel William Penn a'r Crynwyr cynnar.

## Cymeriadau'r Côr

**Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Daniel Williams o'r Felinheli.**

**Be' ydy dy enw llawn?**

Daniel Llewelyn Williams

**Oed?** 54

**Gwaith** Peiriannydd gwella prosesau

**Lle wyt ti'n byw?** Y Felinheli

**Un o le wyt ti'n wreiddiol?**

Morfa Nefyn

**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?**

Cymdeithasol, cymwynasgar, hapus

**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr**

3 mlynedd

**Pa lais wyt ti?** Bas 2

**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?**

Pan ddaeth côr Cyntaf i'r Felin i ben roeddwn eisiau parhau i ganu mewn côr. Roedd rhyw dynfa at Ddyffryn Ogwen gan fy mod wedi cael amser braf yn gweithio yn y chwarel yn y 90au ac wedyn wedi darganfod bod fy nhaid yn wreiddiol o Fethesda. Hefyd roedd yn ffordd i stopio Llion Derby

rhag plygu fy nghlust pob nos Sadwrn.

**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Mae geiriau 'Bring Him Home' yn fy atgoffa nad ydy hi'n bosib rhoi popeth fasai rhywun yn ei hoffi i'w blant. Mae rhai bendithion allan o afael dyn.

**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Alison Krauss

**Beth ydy dy farn di am ganu pop?**

Rhai caneuon a bandiau gwych a rhai da ni ddim yn gofio. Rhoddodd y sin roc Gymraeg lot o bleser a hwyl i mi fel dilynwr a pherfformiwr. Mae yn gwneud 'r un peth i fy hogia.

**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?**

Canu yn Stavanger yn Norwy a chael gweld y "Priest rock". Wedyn, ymateb y dorf yn Blackpool pan ymddangosodd y côr o'r tywyllwch - rhai ohonyn nhw erioed wedi clywed côr o'r blaen.


**Pa ddiddordebau eraill sy gen**

**ti y tu allan i'r côr?** Mae Cyngor

Cymuned Y Felinheli yn mynd a fy mryd a fy amser. Dwi 'di dechrau tynnu lluniau am hwyl tra'n teithio gyda fy ngwraig, Sarah.

**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?**

Rhoi sioe dda yn y steddod a chanu ym Mhen Llŷn - bro fy mebyd.



## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddiwedd mis Medi, ymddiswyddodd Susan Davies, Ward Rachub o Gyngor Bethesda. Diolchwn iddi am 15 mlynedd o wasanaeth gwerthfawr.

Yna, ar ddechrau mis Hydref, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon ym Mangor, yn bennaf i dderbyn adroddiad o Gynhadledd Llafur Prydain. Hefyd, cymeradwywyd cynnig am bolisi werdd gan gangen Dyffryn Ogwen.

Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru ger Abergele. Uchafbwynt y cyfarfod oedd anerchiad gan David Hanson (aelod seneddol etholaeth Delyn), gyda digon o gyfle i ofyn cwestiynau a mynegi barn.

Cynhelir bore coffi'r Nadolig (efo Sion Corn) yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddiwedd y mis (Tachwedd y 30ain).

# Y Dyddiadur toriadau (15)

## Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)

### Côr Meibion yn Llanfair PG

Mae rhan olaf y Dyddiadur Toriadau yn cynnwys nifer o straeon yn hytrach na newyddion am fywyd y fro. "Tua'r flwyddyn 1897," meddir, "blodeuai Côr Meibion Gwyngyll a phan sonnir yma am y cyfnod hwnnw try'r sgwrs ar unwaith at hanes y daith i Drefriw ar Wyl y Banc."

Âr hanes ymlaen i ddweud bod eisteddfodau blynyddol yn cael eu cynnal yn ardal Llanfair bryd hynny ac fe enillwyd y wobr gyntaf am ysgrifennu hanes taith fythgofiadwy'r côr gan ŵr o'r enw William Fair, brawd i'r Dirprwy Brif Gwnstabl Fair o Gaergybi. Disgrifir Will Fair fel 'bachgen talentog iawn' ond yn anffodus fe'i collwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu ei ysgrif fuddugol ar goll am dros ddeugain mlynedd cyn i awdur yr adroddiad gael gafael ynddi. Dywed yr awdur (John Owen, Garnedd Wen ei hun o bosib) nad oedd o ar y daith pan aeth y côr i Drefriw oherwydd ei fod ef a Mr Thomas o'r Ysgol Genedlaethol ar eu ffordd i Sbaen. Cawsant hwythau eu dau brofi'r un storm ag aelodau'r côr pan oedden nhw ym Mae Biscaia, ond yma, trown at y stori fel yr adroddwyd hi gan William Fair.

'Codais tua phedwar o'r gloch y bore er mwyn i mi orffen fy ngwaith cyn cychwyn, achos roedd y charabanc i fod yn Llanfair erbyn 6.30. Aros wrth y Post Office yn y glaw i ddisgwyl wrthi am awr. Penderfynu cerdded i gyfeiriad y Borth i'w chyfw'r a chyn belled ag y cofiaf yr oeddym oll oddi fewn ynddi cyn cyrraedd Chwarel Bridd, 28 mewn rhif ac yn ein plith un ferch ifanc ond gadawodd ni ym Mangor i fynd efo'r trê'n, a dylai pob un ohonom fod wedi gwneud yr un peth - doedd y tywydd ddim ffit.'

'Nid oeddym am roi'n calon i lawr tae hi'n bwrw hen wragedd a ffyn a dyna oedd y password, "Mi godith at y deg boys." Y stop cyntaf oedd y Victoria Hotel, Bethesda. Ymlaen ar ein siwrnai eto drwy Nant Ffrancon ac fel y nesaem at Lyn Ogwen yr oedd yn ddrycinllyd ofnadwy. Pob ymbarelo wedi ei rwygo yn rubanau a ninnau wedi socio drwyddom.

Cyrraedd Swallow Falls ond nid oedd obaith am gysgod na thamaid yno; roedd fan honno yn llawn ffyliaid fel ninnau o bob rhan o'r wlad, ac yn ein blaenau yr aethom nes dod i'r Royal Oak Hotel, Betws y Coed a balch oedd pob un ohonom i ddod o'r chara am eiliad a

deall fod yno ddigon i'w gael i fwyta ac yfed. Arosasom yno am awr a hanner yn ddifyr iawn er gwaetha'n dillad gwlybion.

Cychwyn eto drwy'r gwynt a'r glaw a mynnu cyrraedd Trefriw. Landio yno tua hanner dydd fel dyfrgwn a'r cyntaf welsom oedd blaenor Methodist o Lanfair oedd yn aros yno gyda'i wraig a'i ferch. Ar ôl ein dwrdio'n hallt am ddod cyn belled ar dywydd mor ofnadwy, daeth gyda ni i chwilio am le i gael cinio. Pawb yn methu trefnu i gymryd cymaint o nifer yn ddirybudd. Chwilio y buom o dy i dy ond o'r diwedd cawsom le ond fod yr ystafelloedd yn rhy fychan i ni i gyd-fwyta. Cas i rai oedd edrych drwy ddrws a phaneli gwydr ynddo ar y lleill yn mwynhau cinio da a hwythau'n gorfod aros yn eu dillad gwlybion.



Dichon mai mewn siarabang geffylau tebyg i'r uchod y teithiodd y côr ynddi i Drefriw

\* [Rhaid cofio mai cerbydau agored heb do arnynt oedd mwyafrif siarabangau'r cyfnod - Gol.]

Chwarae teg cawsom oll ein digoni cyn bo hir a sicrhaf chi y gwnaeth pawb gyfiawnder â'r danteithion gan ein bod yn oer a bron newynu. Ar ôl cinio, aethom i'r Hall I gynnal cyngerdd, ac ymddengys bod yr ymwelwyr wedi clywed amdanom, oblegid llanwyd yr ystafell.. Nid oeddem mewn cywair i ganu - lleisiau cryglyd a gerwinder y daith - ond cawsom hwyl dda ar yr hen bethau. 'Awn i ben y Wyddfa Fawr' a 'Chytgan y Morwyr' - edrychem fel rhai wedi bod ar y Wyddfa ac yn y môr. 'Comrades Song of Hope' wedyn a ble caech chi well 'comrades' yr adeg honno na hogiau'r côr? Ond gyda 'Call John' cawsom hwyl ac encore fyddarol, nid am y canu yn gymaint â'r action. Yn hon yr oedd Will Fair ar ei orau. Gwelsom beth oedd yn plesio a rhoes Fair ei 'stump speech' gan dynnu'r lle i lawr. Rhaid ei fod wedi cael diferyn o rywbeth i'w gynhesu rhag cael annwyd oblegid chlywsom ni mohono mor hwyliog erioed o'r blaen na'r fath eneniad ar bob symudiad o'i eiddo. Ar y diwedd daeth y blaenor ato, "Well done machgen i wyddwn i erioed o'r blaen bod chdi mor glyfar," A fo gaeth yr hwyl y p'nawn hwnnw - y comedian aeth â bryd yr ymwelwyr.

Ar ôl te cychwynnodd y côr am adre, 'ond pa ffordd yr aethom nis gwn achos yr oedd yn

chwyrth, yn bwrw yn goleuo mellt ac yn taranu yn arswydus ar hyd y ffordd a phan ddaethom i olwg Pont Conwy y canfyddais gyntaf lle'r oeddem. Yr oedd Afon Conwy wedi codi a blocio'r ffordd fel y bu raid i ni aros lle'r oeddym am gryn amser yn y storm enbyd. Goleuai'r mellt o'n cwmpas nes ymddangosai popeth fel pe ar dân a rhuai'r taranau nes dychryn pawb i farwlaeth bron; ond diolch I Dduw, cyraeddasom y dref. Pan ddaethom o'r car roeddem at ein penliniau mewn d'wr a neb I'w weld yn unlle. Bu raid i ni symud ymlaen am le i roi'r ceffylau a chafodd y driver le iddynt yn yr Harp Inn. Wrth fynd i'r iard cefais y fath gnoch gan lamp y car ar fy mhen nes y bum yn anymwybodol am amser a rhowd fi i orwedd ar y gwellt yn y stabl. Dois ataf fy hun ar ôl cael dropyn o whisgi poeth a'r peth nesaf glywsom oedd twrw'r 'fire brigade' yn rhuthro heibio'r Harp ac aeth rhai i weld lle'r oedd y tân. Nid oedd tân yn unman - rhyw dai oedd wedi llenwi â dŵr ac eisiau eu hachub. Achosodd hyn Inni golli ein gilydd, ond deallasom yn fuan fod y gweddill yn y Boat Inn - yn hanner noeth a'u dillad yn sychu o flaen y tân a rhai ohonynt mewn peryg o fynd cyn wlyped oddi mewn ag oeddynt oddi allan. Dyma Mr Griffith Thomas yn galw amaf i ddod gydag ef i stopio'u tap. Roedd gan yr hogiau gaws a biscuits brynwyd iddynt gan Richard Edwards ac anelwyd aml i belen o gaws at Mr Thomas am stopio'u tap. Llwyddasom yn ein hamcan ar waethaf y bombardio. Nid oedd ôl y ddiod ar yr un ohonynt ond cawsant jest digon i'w cadw rhag cael oerfel.

O'r diwedd trefnwyd i gychwyn am adref. Roedd rhai wedi mynd ar y trê'n ddeg o Gonwy, rhai am aros yng Nghonwy tan y bore. Ond fedren ni oll ddim fforddio talu lodgings yno, talu dros y ceffylau a'r driver a cholli diwrnod o waith y bore wedyn. Cychwynasom o Gonwy tua 11.30 y nos am y daith adref. Oerodd dipyn erbyn hyn, ninnau wedi dechrau teimlo'n flinedig ac fe syrthiodd tawelwch mawr ar y fintai yn y cerbyd. Trwy Benmaenmawr mewn tywyllwch. Llanfairfechan yr un fath ac Aber yn dywyllach fyth ac yn dawel fel y bedd. Bangor rhywbeth yn debyg yn oriau mân y bore. Cyraeddasom Bont y Borth a bu raid inni dalu'r doll yr ail waith ar ein gwaethaf. Gwneud casgliad o 12 swllt i'r driver a chyrraedd Tŵr Marcwis tua 2.30. Mynd am y cartref, newid fy nillad, gwneud fy mrecwast fy hun a chychwyn at fy ngwaith gan fod teulu Plas Newydd yn dod adref y diwrnod hwnnw. Chafodd yr un o'r hogiau annwyd nac unrhyw afiechyd ac maent yn edrych yn ôl ar y daith i Drefriw fel rhywbeth nad aiff byth yn angof ganddynt tra byddont fyw, ac fe'n clymodd wrth ein gilydd fel y bu hen veterans Waterloo yn closio at ei gilydd ar hyd eu hoes, felly y closiwyd ninnau ac y cydganasom am flwyddi maith.'



# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



## 2019

### Tachwedd

- 16 Cefnfaes - Gorffwysfan.
- 23 Cefnfaes - Neuadd Talgai.
- 30 Cefnfaes - Plaid Lafur.

### Rhagfyr

- 07 Cefnfaes - Ysgol Sul Jerusalem.
- 14 Cefnfaes - Cwmni Drama'r Llechen Las.

## 2020

### Ionawr

- 18 Cefnfaes - Ysgol Pendalar er cof am Vernon Owen.

### Mawrth

- 07 Cefnfaes - Plaid Cymru.
- 28 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.

### Ebrill

- 04 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 18 Cefnfaes - Cymdeithas Jerusalem.
- 25 Cefnfaes - Plaid Lafur.

### Mai

- 02 Cefnfaes - NSPCC
- 16 Cefnfaes - Cymorth Cristnogol.

### Mehafin

- 20 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 27 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.

### Medi

- 12 Cefnfaes - NSPCC.
- 26 Cefnfaes - Plaid Cymru.

### Hydref

- 17 Cefnfaes - Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
- 24 Cefnfaes - Eglwys St. Cedol, Pentir.

## CANOLFAN CEFNFAES

### GYRFA CHWIST

TACHWEDD 26  
RHAGFYR 10 a 17

am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

## Cymdeithas Jerusalem

### DATHLU'R NADOLIG yn Festri Jerusalem

Nos Iau, 12 Rhagfyr  
am 7 o'r gloch

## CANOLFAN CEFNFAES

### BORE COFFI YSGOL SUL JERUSALEM

SADWRN, 7 RHAGFYR  
10.00 - 12.00

## CANOLFAN CEFNFAES

### BORE COFFI NEUADD TALGAI

SADWRN, 23 TACHWEDD  
10.00 - 12.00

## CANOLFAN CEFNFAES

### BORE COFFI CWMNI DRAMA'R LLECHEN LAS

SADWRN, 14 RHAGFYR  
10.00 - 12.00

## CANOLFAN CEFNFAES

### BORE COFFI PLAID LAFUR

DYFFRYN OGWEN  
SADWRN, 30 TACHWEDD  
10.00 - 12.00  
BYDD SIÔN CORN YN GALW

## Ysgoldy Carmel, Llanllechid

### TE BACH

Pnawn Llun, 18 Tachwedd  
2.30 - 4.00  
Croeso i bawb

## Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Croeso Cynnes i Bawb  
**Lleoliad:**  
Canolfan Cefnfaes, Bethesda  
7.15yh - 9.30yh

### RHAGLEN HYDREF - RHAGFYR 2019

**27 Tachwedd** 'Taith y Ddraig' -  
Margaret Salisbury  
MFIAP FRPS APAGB  
**11 Rhagfyr** Noson Aelodau

Gweler gwefan y clwb am ragor o  
wybodaeth a lluniau gan aelodau:  
[www.dyffrynogwencamera.co.uk](http://www.dyffrynogwencamera.co.uk)

## Sgwrs a Chân

Canolfan Iechyd  
yr Hen Orsaf, Bethesda  
1.15 - 2.30

Dewch i fwynhau sgwrs a  
chân dros baned  
Croeso cynnes i bawb.

### Dyddiadau:

Hydref 18  
Tachwedd 1, 15, 29  
Rhagfyr 13

Gwybodaeth: 01286 685230



Eglwys St. Ann a St. Mair

## FFAIR NADOLIG

yn Neuadd Goffa  
Mynydd Llandygai  
Sadwrn, 7 Rhagfyr  
11.00 - 2.00  
Lluniaeth a Stondinau

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Nos Lun, 9 Rhagfyr  
am 7.00yh  
yn Festri Capel Jerusalem  
Deri Tomos  
"Gwyddonwyr Dyffryn Ogwen"  
£1.50 wrth y drws neu  
am ddim i aelodau

## CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI  
GORFFWYSFAN**SADWRN, 16 TACHWEDD  
10.00 - 12.00Eglwys St. Cross Talybont  
**BORE COFFI NADOLIG**  
yn Ysgoldy Maes y Groes  
Dydd Mawrth, 03 Rhagfyr  
am 10.30yb

Neuadd Talgai, Llandygai

**BINGO'R NADOLIG**Nos Iau, 21 Tachwedd  
am 7.00yhEr budd Cronfa Eglwys Sant Tegai  
Croeso i bawb.

Hefyd

Prynhawn o arddangos  
a threfnu blodau

Dydd Sadwrn, 7 Rhagfyr am 2.00yp.

CAPEL BETHLEHEM  
TALYBONT**FFAIR NADOLIG**

yn y Festri

Nos Fercher, 4 Rhagfyr  
am 6.30yh

Mynediad : £1.00



Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

**GWASANAETH NADOLIG**(I gloi dathliadau eu  
50fed penblwydd)Dydd Sul, 1 Rhagfyr am 3.00yp  
yng Nghapel Carmel Llanllechid  
gyda Chôr Ysgol Llanllechid ac eraill  
Gwneir casgliad at waith y Cyfeillion  
Panad a mins pei yn y festri wedyn**DIFFRIBILIWR Talybont**Sesiwn Hyfforddiant i'r cyhoedd  
yn Festri Capel Bethlehem**28 Tachwedd 2019****18.00 - 20.00**Dewch i ddysgu sut i  
ddefnyddio eich Diffribiliwr lleol

## CYFARCHION NADOLIG

Ni fydd Alan Davies, Porthaethwy  
(gynt o Fynydd Llandygai),  
na John a Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf,  
yn anfon cardiau Nadolig eleni,  
ond maent yn dymuno  
Nadolig Llawen a Blwyddyn  
Newydd Dda i'w cymdogion  
a'u ffrindiau i gyd.**Eglwys Glanogwen a Llanllechid**

Gwesty'r Douglas

**Dydd Gwener, 6 Rhagfyr****2.00yp - 4.00yp**

Stondin a Raffl

Tocyn : £5

**Andrew Edwards**

(Rachub)

GYDA LLAW

Therapi

Tylino'r Corff (Massage)

07957 002567

massagegydallaw@gmail.com

**Marchnad  
Nadolig  
Lôn Las****Ffarm Moelyci, Tregarth****Dydd Sul: 15ed Rhagfyr 10 - 6yh**Cynnyrch a Chrefftau Lleol  
**Cerddoriaeth Fyw**  
Mins Peis a Gwŷn Sbeislyd Cynnes  
**Cynnyrch Nadolig, Tombola**  
Addurniadau a Writhoedd Ffres**AWYDD STONDIN?**  
Cysylltwch a Carol  
07884 454 992**Stondinau Lluniaeth**  
Flame & Grain Pizza  
Zapatisimo Tacos  
Veggiman**Siop a Caffi**  
**'NAWR A'R AGOR**  
**7 DIWRNOD'**  
**10yb Ymlaen**Ffarm Moelyci, Lôn Felin Hen, Tregarth, LL57 4BB  
01248 602 793, siop@moelyci.org**Siân Gwenllian**

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch  
AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa  
ym Mangor neu yng Nghaernarfon**Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR**

(01248) 372948

**Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE**

(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

**Hywel Williams**Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon**CYMORTHFEYDD**Os oes gennych fater yr hoffech ei  
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,  
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa  
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:**Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR**  
☎ (01248) 372 948**Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE**  
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Mae'n siŵr fod llawer ohonoch chitha', fel finna' yn dal i gadw cysylltiad efo hen ffrindiau' sydd bellach yn byw ymhell o'r hen ardal. Dw i wedi bod yn mwynhau sgysysiau difyr iawn dros y ffôn ers blynyddoedd efo nifer o ffrindiau. Dyma, er enghraifft, rai ohonyn nhw: John Ffrancon Davies, o Faes Coetmor gynt, ac yn awr yn byw yn Windsor, a fu'n dal swyddi cyfrifol iawn gyda'r Rheilfyrdd Prydeinig ac yna gyda Cyngor Kensington yn Llundain; John Ffrancon Griffith, Tŷ'r Ysgol Glanogwen, fu'n Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Emrys ap Iwan, Abergele, ac yn byw o hyd yn nalgylch yr ysgol honno; Vincent Roberts, o Adwy'r Nant, cyn Ddirprwy Brifathro Ysgol Glanconwy, sydd yn byw heddiw yn Rogerstone, ger Casnewydd; Gillian Thomas a Ffrancon, ei brawd, y ddau o Res Jâms, Braichmelyn, ac yn byw y dyddiau hyn heb fod nepell oddi wrth ei gilydd yn

ardal Croydon - nyrs oedd Gill a Ffrancon yn athro cerdd; Wyn Thomas, gynt o Stryd Goronwy, Gerlan, cynhyrwydd teledu a sefydlydd Ffilmiau Tawe, sy'n byw yn Garden Village, ger Abertawe; Doreen a'i chwaer, Sheila (Williams gynt), a arferai fyw yn y Gerlan, Doreen yn byw yn Waltham Cross, Llundain, a Sheila yn Lockerbie, Yr Alban.

Wrth gael sgwrs ar y ffôn yn ddiweddar, soniodd Wyn am ei ddiddordeb yn y geiriau a'r ymadroddion y byddai chwarelwyr Dyffryn Ogwen yn eu defnyddio 'ers talwm', llawer ohonyn nhw wedi hen ddiplannu erbyn hyn. A chawsom orig ddifyr yn cofio am eiriau diflanedig a'r rheini weithiau yn dŵad ag ambell olygfa'n fyw i'r cof.

Cofiaf fel y byddai rhesi o chwarelwyr, fesul pedwar neu bump, yn gorymdeithio fel byddin, yn llenwi lôn Braichmelyn, wrth ddŵad adra o'u gwaith, a llwch y chwaraal yn

llwyd ar eu gwedd a'u gwisg. Dw i'n gallu clywed rŵan sŵn eu sgidia-hoelion-mawr (a chloesia gan ambell un) yn taro bron yn unsain ar wyneb y ffordd, a'r rhesi yn eu trywsusau melfaréd yn chwibanu gyda phob cam a gymerent. A thybed faint o ddarllenwyr *Llais Ogwan* sy'n dal i gael 'swpar chwaraal' y dyddia' hyn?

Wedi llafur y diwrnod, byddai digon o weithgareddau'n cael eu cynnal ar noson waith yn yr ardal: eisteddfodau, cyfarfodydd cystadleuol, cylchwyliu llenyddol a cherddorol - yn aml wedi eu trefnu gan y capeli a'r eglwysi lleol - a byddai nifer helaeth o gwmnïau drama a chwmnïau-cadw-nosweithiau-llawen yn dŵad i'r ardal i diddanu'r trigolion.

Byddai diwylliant y chwarelwyr hefyd yn dŵad i'r amlwg yn eu caban neu'r cwt (neu, weithiau, y cwt-mochal-ffaiar) yn y chwarel, lle byddai'r

hogia', dan arweiniad Llywydd neu Gadeirydd, yn cynnal trafodaethau ar faterion y dydd, pregeth y Sul, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth, crefydd, addysg, ac ati. Dyna pryd y caent egwyl i roi heibio'r morthwylion a'r cynion man-hollt a bras-hollt, yr ebillion a'r trosolion, ac ymroi i drafod cynlluniau ar gyfer trefnu timau pêl-droed a bandiau a chorau'r ponciau. O'r rhain y daeth tîm enwog y 'Penrhyn Quarry' yn ogystal â Seindorf Arian y chwarel a Chôr presennol y Penrhyn a'i ragflaenydd, sef y Côr a ddaeth yn ail i gôr o'r Rhondda yn y gystadleuaeth honno yn Ffair Fawr y Byd Chicago ym 1893.

Rhagor o eiriau a themau'r chwarel y tro nesaf. Yn y cyfamser, anfonwch ataf unrhyw rai y gallech chi fod yn eu cofio (gydag eglurhad, pe baech yn teimlo y byddai hynny'n angenrheidiol).

## YSGOL ABERCASEG

### Diwrnod Shwmae

Diolch yn fawr i Ddreigiau Caseg y Siarter Iaith am gynllunio poster oedd yn cael eu harddangos o amgylch a thu allan i'r ysgol yn atgoffa pawb i, 'gychwyn bob sgwrs yn y Gymraeg'. Diolch hefyd iddynt

am gynllunio prynhawn arbennig Shwmae ble roedd pawb yn yr ysgol yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol a oedd yn hybu'r iaith Gymraeg, sinema Cymraeg, Disgo Cymraeg, lliwio baneri a phosteri yn ogystal â defnyddio apiau Cymraeg. Roedd

pawb yn edrych yn wych yn eu coch, gwyn a gwyrdd!

### Dathlu Cwpan Rygbi y Byd

Wel am dri diwrnod bythgofiadwy a gafwyd yn dathlu Cymru, Japan ac America. Pawb wedi gwisgo fyny mewn dillad a oedd yn cynrychioli'r

gwledydd, cinio arbennig ar y tri diwrnod a hefyd gweithgareddau diddorol yn cyd fynd a'r gwledydd yn digwydd ym mhob dosbarth. Diolch yn fawr iawn i'r holl rieni am yr ymdrech arbennig gan ystyried gwisgoedd y plant, a diolch hefyd i Anti Marian am ginio bendigedig.



Baner America



Diwrnod Shwmae



## Caerhun a Glasinfryn

### Cylch Glasinfryn

9 Hydref - Noson i'w chofio yn y Cylch. Noson i ffarwelio â ffrind annwyl. Mae'r Barchedig Christina McCrea (Christina) yn ymddeol ac yn anffodus i ni bydd yn dychwelyd i'r Iwerddon. Fel trysorydd penigamp a mwy na hynny, fel ffrind, bydd chwith mawr ar ei hôl.

Talwyd teyrnged rhagorol iddi gan Mair a phwysleisiodd y gwaith tawel a di-stŵr bu Christina yn ei wneud am flynyddoedd.

I ffarwelio ac i ddathlu ymddeoliad hapus iddi cawsom wledd yn y Ganolfan. Pawb wedi cyfrannu at y bwyd ardderchog. Ar gychwyn y noson bu Christina yn sôn am ei bywyd cynnar ar ôl gadael y coleg wedi graddio fel fferylllydd, yn gweithio yn wirfoddol (VSO) yn Zambia. Bu yn byw yn Lusaka o 1988 - 1990 yn gweithio fel fferylllydd yn dysgu o dan amgylchiadau tlawd ac anodd.

Didorol iawn oedd gweld y lluniau o'r dref a'r amgylchiadau bu rhaid iddi weithio ynddo. Bu yn gyfnod hynod o hapus meddai Christina, lle y dysgodd lawer am y byd a'i phobl.

Diolch Christina am dy gwmni tawel, ffyddlon. Dymunwn bob hapusrwydd i ti adra yn yr Iwerddon gan fawr obeithio dy weld eto ar ymweliad â Chymru.

### Llwyddiant yn Awstralia

Bydd trigolion Bro Infryn a Waen Wen yn siwr o gofio Jonathan Jones a'i wraig Hayley, sef mab Allan Jones, Bwthyn y Waun, Waen Wen. Rhai blynyddoedd yn ôl ymfudodd Jonathan

a'i deulu i Perth, Awstralia. Daeth newyddion i law fod Chloe, merch Jonathan a Hayley wedi llwyddo yn dda yn ei chwrs arbennig yn y Brifysgol yno. Mae Chloe yn dilyn cwrs y Gyfraith a Chyfiawnder ac fel rhan o'i chwrs yn cael profiad gwaith yng Nghanolfan Cymunedol Oedolion yn Perth sydd yn arbenigo mewn ceisio cywiro a helpu rhai sydd wedi torri'r gyfraith. Bydd y profiad gwaith yn parhau am 14 wythnos. Ym mis Ionawr bydd Chloe yn graddio gyda gradd Baglor mewn Cyfiawnder ac Astudiaethau Troseddau (Criminal and Justice) cyn bwrw ymlaen gyda chwrs gradd arall yn y gyfraith.

Braf yw clywed hanes llwyddiant merch adawodd yr ardal gyda'i theulu pan yn 9 oed.

### Bingo Nadolig

Bydd y Bingo Nadolig yn cael ei gynnal ar 13 Rhagfyr yn y Ganolfan. Cofiwch fod y Bingo yn dechrau am 6.30yh y tro hwn gan y bydd lluniaeth ar gael ar y diwedd. Croeso cynnes iawn i bawb, byddwn yn falch iawn o'ch gweld. Elw yn mynd at achosion da lleol.

### Opera'n y Boced

Ar nos Wener 15 Tachwedd am 7.30yh yn y Ganolfan cynhelir opera byr gan Pergoles. "Pocket Opera - Opera'n y Boced". Menter newydd, gyffrous wedi ei ddarparu gan Marian Bryfdir yw'r noson yma a chymerir rhan gan y bariton o Amlwch, Keifer Jones. Mynediad am ddim a darperir lluniaeth ysgafn.

## Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

### Clwb Ieuenctid

Bydd aelodau'r Clwb yn gwneud dwy daith gerdded noddedig yn ystod y misoedd nesaf i godi arian at y clwb. Hefyd, cynhelir Bingo Nadolig ar nos Fawrth, 26 Tachwedd am 7yh.

Os hoffech ein noddi, mae tudalen Just Giving ar dudalen Facebook y Clwb, neu cysylltwch â Lynda, Dana neu Corina.

Diolch i Lynda, Dana a Corina am redeg y clwb yn ddi-dâl, a gwneud gwaith ardderchog.

### Eglwys St. Ann a St. Mair

Tach. 17eg.	9.30 y.b.	Boreol Weddi
Tach. 24ain.	9.30 y.b.	Cymun Bendigaid
Rhag. 1af	9.30 y.b.	Gwasanaeth Teuluol
Rhag. 8fed	9.30 y.b.	Cymun Bendigaid
Rhag. 15fed	9.30 y.b.	Gwasanaeth

"Naw Llith a Charol".

Bydd unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau i'w gweld ar yr hysbysfwrdd. Os oes unrhyw un yn dymuno trefnu unrhyw wasanaeth arall yn yr eglwys cysyllter ag un o'r Wardeiniaid:

Janet Williams - 600434; Stephen Thompson - 601418; Peter Price - 601199. Cofiwch am bawb sy'n sâl ac anfonwn ein cofion atoch.

### "FFAIR NADOLIG"

Sadwrn, 7fed Rhagfyr - 11 - 2 p.m.

yn y NEUADD GOFFA, Mynydd Llandygái. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael dros yr awr ginio ynghyd ag amrywiaeth o stondinau Nadoligaidd.

## Tacsi A2B

Busnes newydd lleol

Tacsi glân a ffres sydd ddim ond yn gwybod am y siwrna' fyrraf o A i B Hefyd Teithiau i Feysydd Awyr a Phorthladdoedd

**07534 473112**

Gallwch gysylltu drwy "Facebook" neu E-bost: [rwillms@aol.com](mailto:rwillms@aol.com)



## Cawl Blodfresych a Brocoli gyda Chaws glas neu Cheddar

### Cynhwysion

1½ cenhinen a ½ nionyn (wedi eu torri'n fras).

½ blodfresychen (*caulie*) ac 1 brocoli.

1 owns o fenyn.

2 lwy fawr o olew.

1-1½ peint o lefrith.

½ peint o stoc cyw iâr neu lysiau.

Halen a phupur du.

1-2 owns o gaws glas neu Cheddar (wedi'i gratio).

### Dull

Ffriwch y cennin a'r nionyn yn yr olew a'r menyn am 2-3 munud.

Ychwanegwch y flodfresychen a'r brocoli (heb y coesau, ac wedi eu torri'n fras).

Ychwanegu'r stoc.

Dod â fo i'r berw, ac wedyn ei fudferwi am ryw 10-15 munud (nes ei fod yn dendar).

Ychwanegwch yr halen a'r pupur.

Malwch y cwbl efo hylifwr llaw (*liquidiser*).

Ychwanegwch y llefrith a dod â fo eto i'r berw (heb gaead).

Troi'r gwres i lawr wedyn, a'i fudferwi am ryw 10 munud.

Tynnwch y brigwyn (*froth*) efo llwy fawr a'i luchio i fwrdd.

Ychwanegwch y caws i'r cawl, a phan fydd y caws wedi toddi, mae'n barod.

Mwynhewch y cawl efo bara, tost neu ciabatta.

I hysbysebu yn Llais Ogwan,  
Neville Hughes 600853

**Amser ni**

A oes ganddoch ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda plant anabl a'u teuluoedd?

**NEU**

A oes ganddoch ddiddordeb rhoi egwyl fer i blentyn anabl dros dro?

(01286) 674 686

[AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru](mailto:AmserNi@Gwynedd.Llyw.Cymru)

## Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda ☎ 600853  
Barbara Jones,  
1 Dol Helyg, Talybont  
☎ 353500

### Llongyfarchiadau!

Mae Bill Murrell, 4 Dolhelyg, yn daid am y pedwerydd tro. Ganwyd merch fach, Delilah Jill, ar benblwydd ei mam, Lucy, yn Las Vegas. Mae'r teulu wrth ei bodd, yn enwedig ei chwaer fawr, Maggie, sydd bron yn dair oed erbyn hyn. Rhaid inni ymddiheuro i deulu Cae Mawr, Gatws. Mae Eos, chwaer fach Eban ac Efa, wedi dod i'r byd ers rhai misoedd bellach, ond 'chlywsom ni mo'r newyddion llawen yn fan hyn tan yr wythnos ddiwethaf! Llongyfarchiadau, Geraint a Meinir, a phob bendith arnoch i gyd fel teulu.

### Llwyddiant

Fe gofych i Mitchel Jones, 70 Bro Emrys, ddod yn Bencampwr Cymru yn yr Ornest Bocsio a gynhaliwyd yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, fis Mai diwethaf. Enillodd Mitchel yn y dosbarth ar gyfer bechgyn ysgol ac, fel canlyniad, cafodd fynd i Gopenhagen i gynrychioli ei wlad yn yr HSK Box Club Cup.

11 oed ydi Mitchel, ac ef, mae'n siwr, oedd un o'r rhai ieuengaf yn ei ddosbarth. Paffiodd ei orau glas ac, er na lwyddodd i gyrraedd y brig y tro hwn, mae pawb yn ffyddiog iawn bod ganddo ddyfodol disglair o'i flaen yn ei gamp ddewisedig.

Anfonwn longyfarchiadau i'w frawd mawr, Jamie, a ddathlodd ei benblwydd yn 21 ar yr 11eg o fis Hydref; y diwrnod roedd Mitchel yn hedfan i Ddenmarc.

Mae Logan Sellers, 16 Cae Gwigin, wedi ennill gwobr genedlaethol yn ddiweddar. Er nad ydym wedi cael y manylion, mae unrhyw llwyddiant sy'n dod i ran Logan yn destun llawenydd inni i gyd, ac yntau wedi bod mor wael. Da iawn chdi, Logan. Pob bendith i'r dyfodol.

### Damwain

Cafodd John Baston, 56 Bro

Emrys, godwm cas iawn yn ymyl ei gartref dri mis yn ôl. Anafodd ei ysgwydd yn ddrwg iawn, a gwneud niwed ofnadwy i'r gewynnau a'r nerfau yn ei fraich dde. Mae'n debyg y bydd hi'n rhai misoedd eto, nes bydd yn medru defnyddio ei law a'i fraich fel cynt.

Brysia wella, John. Mae pawb yn cofio'n gynnes atat.

### Rose

Yn oriau mân bore Sadwrn, yr ail o Dachwedd, yng Nghartref Nyrsio Ceris Newydd, lle derbyniodd ofal eithriadol, bu farw Mrs Rose Thomas. Bu farw, fel y bu byw, yn dawel ac urddasol, â'i theulu agos o'i chwmpas, ond, heddiw, mae Dolhelyg yn dlotach lle o lawer, wedi inni golli un o'r rhai olaf ac anwylaf o'r hen drigolion.

'Chafodd Rose fawr o gyfle i fwynháu gwelliannau'r tai 'Airey', cyn i afiechyd a llesgedd ei threchu ond, rywsut, er yr holl gyfleusterau, 'doedd 16 Dolhelyg, ar ei newydd wêdd ddim yn debyg i gartref Rose gynt.

Roedd tŷ Rose ac Idris, ei gŵr, yn ogof hud a lledrith i blentyn bach. Byddai'n genod ni wrth eu bodd yn cael picio yno ar neges, a chanfod y 'trysorau' oedd ganddi ymhob twll a chornel. Un o'r ffefrynau oedd cloc ar ffurf Elvis, a'r coesau'n dawnsio i rythm y tipiaidau!

Casglwr o fri oedd Rose. Gwelai werth ym mhob tamaid o ddeunydd ail-gylchu: darn o'r rhwyd o gwmpas orennau; tameidiau mawr a bach o gardfwrdd; pcedi a blychau diri; oherwydd arlunydd reddfol ydoedd, heb erioed gael gwrs yn ei bywyd. Meddai ar synnwyr lliw a llun; maint a chyfartaledd. Yn llygad ei meddwl, gwelai gegin ei nain; y bythynnod a'r tyddynnod o gwmpas yr hen gartref yn y Groeslon; a meddai ar y ddawn i droi ei hatgofion yn lluniau a modelau anhygoel o gywrain.

Roedd addfwynder, anwyldeb a ffraethineb naturiol Rose yn hysbys i bawb a'i hadnabu, ond nid felly ei doniau celf. Rhai blynyddoedd yn ôl, gofynnodd Neville iddi ddod â samplau o'i gwaith llaw efo hi i 'Bwrlwm Bethlehem'. Roedd ei chyd-aelodau yn rhyfeddu at ei dawn,



fel y gwelir yn y llun uchod, lle mae Hughie Post, a'r diweddar annwyl Ifor Morris a Brian Hanks, yn edmygu cynnwys yr arddangosfa.

Bu gofal Rose dros ei theulu'n fawr, a hwythau, yn eu tro yn gofalu'n dyner amdani hithau. Roeddynt i gyd, yn ogystal â'i ffrindiau ffyddlon, yn meddwl y byd ohoni. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Idris, Arfon, Henry a'r teulu oll yn eu hiraeth.

Roedd ffydd Rose yn syml ac yn gadarn. Bu'n gefnogol iawn i'r Achos ym Methlehem, mangre ei Gwasanaeth Angladdol, ac i Eglwys St. Cross, lle dymunai gael ei chladdu.

Pan oedd y tai yn cael eu hadnewyddu, a hwythau'n gorfod symud dros dro i Dregarth, daeth Rose acw i gynnig ei hen harmoniym i'r Capel. Bu peth oedi cyn derbyn ei chynnig caredig, oherwydd bod gennym organ a phiano yn barod. Beth bynnag, daeth cyfle, ymhen yr wythnos, i groesi'r lôn, a gofyn plis gawn i weld yr offeryn.

Ateb ffraeth Rose oedd: Mae hi wedi mynd, cariad. Mae hi yn y Nefoedd. Mae'r hogia wedi'i thorri hi i fyny. Dydi hi ddim yma dim mwy; mae hi wedi mynd i'r Nefoedd.

Erbyn hyn, cawn ninnau ddweud bod ei pherchennog annwyl wedi dilyn ei harmoniym at ei gwobr haeddiannol. Cawn fod yn berffaith sicr o hynny! (B.J.)

### Gwaeledd

Mae tad Sandra, 13 Dolhelyg, wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Anfonwn ein dymuniadau gorau iddo am wellhád llwyr a buan, ac i bawb arall o'r teulu sydd wedi bod o dan y don yn ddiweddar.

Cafodd Gary Casey, 20, bwl o lid yr ysgyfaint y mis diwethaf. Brysia wella, Gary, cyn i oerfel y Gaeaf gyrraedd. Mae hi ar y ffordd yn barod, mae arna'i ofn.

### Diolch!

Hoffwn ddiolch o galon i'm cwsmeriaid 'Llais Ogwan' i gyd. Roedd pawb wedi talu imi am y flwyddyn cyn i gopi mis Hydref ddod o'r Wasg.

Gyda llaw, mae rhywfaint o Galendrau 2020 yma, os oes gan rhywun sydd heb fod ar fy rhestr arferol â ddi-ddordeb. £4 yw'r pris; anrheg Nadolig gwerth ei chael.

### Eglwys St Cross

Dymunwn bob hwyl, bendith a hapusrwydd i'r Parchedig John Matthews a Mrs Matthews wrth iddynt gychwyn pennod newydd yn eu bywydau a'u gweinidogaeth yn Seland Newydd - dipyn bach rhy bell i ni bigo am banad a sgwrs! Diolch o galon, John a Sue, am eich holl waith yn ein plith - mae wedi bod yn fraint ac yn bleser dod i'ch adnabod a gweithio efo chi.



Gweler y cyhoeddiad ar wefan yr Esgobaeth am fwy o'u hanes: <https://bangor.eglwysyngnghymru.org.uk/newyddion/2019/09/22/y-parchedig-john-matthews/>

*Gwasanaethau'r Sul: Mis Tachwedd:*

**17/11** - DIM gwasanaeth yn St Cross, ond Gwasanaeth Cymun y Plwyf yn Eglwys Crist, Glanogwen, am 11.00yb gyda Esgob Andrew John.

**24/11** am 11.00yb - Cymun.

*Gweithgareddau eraill:*

Dydd Mawrth, Rhagfyr 3ydd - Bore Coffi Nadolig yn yr Ysgoldy am 10.30 a.m.

### Capel Bethlehem

Oedfaon  
Tachwedd 17: Parchg. Ddr. Geraint Tudur.

Tachwedd 24: Gweinidog.

Rhagfyr 01: Parchg. R.O. Jones, Gaerwen.

Rhagfyr 08: Gweinidog.

Rhagfyr 15: Oedfa Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul.

Rhagfyr 22: Gweinidog.

Rhagfyr 29: Parchg. Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

Croeso cynnes i bawb.

### Cyfarfod Chwarter

Ar nos Fercher, 23 Hydref, cynhaliwyd Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yma ym Methlehem. Yn dilyn y rhannau arweiniol gan Jean a Neville gyda Barbara wrth yr organ, trafodwyd busnes arferol y Cyfundeb, cyn i ni gael y fraint o wrando ar y Parchedig Ddr. Alun Tudur, Caerdydd, yn traddodi pregeth rymus ac amserol iawn. Cyn i bawb droi am adre cafwyd paned a lluniaeth ysgafn yn y festri mewn awyrgylch gartrefol dros ben. Diolch i'r rhai fu'n paratoi ac yn gweini!

### Ysgol Sul

Llongyfarchiadau i'r plant am eu rhan yn yr Oedfa Ddiolchgarwch a gynhaliwyd ar bnawn Sul, 13 Hydref.



Diolchgarwch y plant

Braf oedd cael croesawu nifer dda o deuluoedd a chyfeillion i'r Oedfa ac i'r baned wedyn.

Diolch i Barbara am drefnu'r Oedfa, ac i'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard am ei gyfraniad gwerthfawr yntau.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-agor ar ôl gwyliau hanner tymor, am 10 o'r gloch fore Sul, 10 Tachwedd, pryd y byddwn yn cychwyn paratoi ar

gyfer Oedfa Deulu'r Nadolig a gynhelir ar 15 Rhagfyr.

### Dyddiad i'w Gofio

Edrychwn ymlaen at ein Ffair Nadolig flynyddol a gynhelir eleni ar nos Fercher, 4 Rhagfyr am 6.30.

Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu ein cefnogwyr ffyddlon o'r pentref a thu hwnt.



# Hywel WILLIAMS

ETHOLIAD CYFFREDINOL

SAN STEFFAN 12, Rhagfyr 2019

*Llais cryf a lleol dros bobl Arfon a Chymru.*

Mae Hywel yn fwy na pharod i herio pleidiau elitaidd San Steffan, rhoi llais i bobl cyffredin, amddiffyn eu buddiannau a brwydro dros eu hawliau. Ei brif flaenoriaeth yw Arfon a Chymru.



Plaid Cymru | Party of Wales

Hyrwyddwyd gan Gareth Griffith, 17 Bryn y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4LY ar ran Hywel Williams, Plaid Cymru | 8 Stryd y Castell | Caernarfon | LL55 1SE.



## Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

### Newyddion

Ar ddiwedd mis Medi, ymddiswyddodd Susan Davies, Hen Barc o Gyngor Bethesda. Diolchwn iddi am bymtheg mlynedd o wasanaeth gwerthfawr.

Aeth y cynghorydd Godfrey Northam o amgylch Ward Rachub i weld faint o ddeunydd oedd yn y biniau halen, er mwyn i Gyngor Bethesda eu hail lenwi lle bo angen. Rhif ffôn Cyngor Bethesda yw 602131.

Da oedd gweld bod y tywydd yn braf ar gyfer Ffair Llan.

Atgoffwn ein darllenwyr bod Llais Ogwan ar gael yn siop Rachub ar y trydydd Dydd Gwener o'r mis.

Ni fydd Medi Williams Ystad Coetmor yn gyrru cardiau Nadolig y flwyddyn yma. Dymuna Nadolig Llawen i'w ffrindiau i gyd.

### Ann Tugwell

Dymuna Ann Tugwell diolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau am wneud ei phenblwydd yn 65 oed ar Awst 9fed yn un hapus iawn. Diolch hefyd am yr holl anrhegion a blodau a dderbyniodd.

Diolch hefyd am y blodau hyfryd a dderbyniodd ar benwythnos anodd iawn, penblwydd Raymond yn 70eg. Diolch o waelod calon.

Penblwydd hapus arbennig i Gaynor (darts) Williams yn dathlu ei 60 ar Tachwedd 6ed.

### Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid

Daeth criw da iawn i ysgoldy Carmel i wrando ar Shân Robinson yn sgwrsio am ddigwyddiadau'n ymwneud â mudiadau hawliau merched yn ardal Gwynedd a thu hwnt.

Roedd yn ddiddorol iawn clywed am y merched dosbarth canol ac uwch (Seisnig) yn cychwyn y mudiadau i hawlio pleidlais i ferched



### PRIODAS

Llongyfarchiadau i Llio Medi Williams o 13 Hen Barc a Carwyn Price o Benrhyndeudraeth ar achlysur eu priodas ym Mhortmeirion ar ddydd Sadwrn, Hydref 5ed.

mewn ardaloedd fel Llandudno a Bae Colwyn drwy anufudd-dod sifil, protestiadau a thorcyfraith, ac am y driniaeth anhygoel o frwnt a gawsant gan aelodau o dorfeydd mawrion yn y protestiadau. Roedd llawer yn meddwl mai goddefol iawn oedd merched y dosbarth gweithiol, am nad oedd ganddynt amser mewn gwirionedd i brotestio a mynychu cyfarfodydd. Ond mae cofnodion ar gael yn tystio bod dros 300 o ferched wedi mynychu cyfarfod ym Mhantdreiniog tua 1911 - pob un yn cefnogi'r ymgyrch am bleidlais i ferched. Roedd rhaid disgwyl tan 1918 i ferched dros 30 gael hawl i bleidleisio, a than 1928 i ferched gael yr un hawliau pleidleisio â dynion. Diolch Shân, am sgwrs ddifyr tu hwnt.

Dymunwn adferiad buan i Mr Wyn Roberts (Tanbwllch) ar ôl iddo dreulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen i'w groesawu'n ôl yn fuan.

Cofiwch am ein llyfr o hen ffotograffau'r ardal sydd ar werth yn awr am £5 - anrheg Nadolig gwych!

Cyfarfod nesaf - Tachwedd 27.

### Carmel, Llanllechid

Trefn Gwasanaethau (am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)

Tachwedd 17: Cyfarfod Gweddi.

Tachwedd 24: Gweinidog.

Rhagfyr 01: Gweinidog (Cymun).

Rhagfyr 08: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.

Rhagfyr 15: Gwasanaeth Nadolig (am 4.00yp)

Croeso cynnes i bawb

Ysgol Sul am 10.30yb.

Clwb Dwylo Prysus bob nos Wener am 6.30.

### Yr Ysgol Sul

Daeth tymor Diolchgarwch am y Cynhaeaf unwaith eto. A cawsom wasanaeth bendithiol o Ddiolch i Dduw am ei gynhaliadaeth i ni eleni eto yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc. Diolch i bawb yn rieni, teulu ac aelodau Carmel am ddo i gefnogi'r ifanc yn eu gwaith. Roedd y casgliad o £150 i'w roi tuag at y genhadaeth fyd-eang.

### Clwb Dwylo Prysus

Ddiwedd mis Hydref cafodd aelodau'r Clwb drip i'r Wybrnant sef cartref yr Esgob William Morgan sydd gerllaw Penmachno. Fe wnaethom ni aros am ychydig ym Metws y Coed i weld y siopau a chael cinio yno. Yna ymlaen a ni i'r Wybrnant lle roedd yno dân braf ar yr aelwyd a chroeso mawr i ni yno. Diolch i Nathan am roi hanes William Morgan i ni mewn ffordd syml a chliir. Bu rhai ohonom yn ceisio sgwennu hefo pluen ac inc a chafodd rhoi o'r bobl ifanc hwyl arni! Cyn mynd oddi yno fe gawsom ni wasanaeth o ddiolch am y Beibl yn yr iaith Gymraeg. Darllenwyd Salmau o gyfieithiad William Morgan, gweddi, ac i gloi fe wnaethom ni ganu

"Dyma Feibil annwyl Iesu

Dyma rodd deheulaw Duw"

### Carmel Llanllechid - TE BACH

'Pnawn Llun, 2:30 - 4 o'r gloch

Tachwedd 18fed.

CROESO

### Carmel Llanllechid - TE BACH

Rhagfyr 16eg

2:30 - 4 o'r gloch

CROESO



Y plant wrth ddrws y Capel



Y bobl ifanc y tu allan i'r Wybrnant

# Croesair Llais Ogwan

## AR DRAWS

- 1 Dirywio, dim yn gwella (8)
- 5 Yr arweinwyr, gan lynu un dudalen, i'w roi'n sownd i un arall (4)
- 7 Myrdd o bysgod efo'i gilydd (4)
- 8 Un sy'n ceisio bod yn AS mewn etholiad (8)
- 9 Mae braster mewn bol a gên yn dangos eich bod yn magu hwn (6)
- 12 Chwit-chwat (7)
- 15 Cyffesu (7)
- 19 Warws (6)
- 21 Natur hanner y boblogaeth ..... (8)
- 22 ..... ac enw bedydd fedrir ei roi ar un o'r hanner arall (4)
- 23 Cyfeiriad wrth fynd i lawr yn y byd, yn farddonol (4)
- 24 Tosturi (8)

## I LAWR

- 1 Gwaith dyn papur newydd (6)
- 2 Codi emynyddol, "...gyda'r lluoedd, Fry i fynydd Duw" (5)
- 3 Ynghanol rhai eraill (5)
- 4 Rhaid ffitio'r un gôt yn daclus cyn chwythu hwn (6)
- 5 Rhestr drefnus a fegir yn gywir yn y llyfr (6)
- 6 Saboth (3,3)
- 10 Ym mhen draw'r heol af yn bwylllog, er mai dwytha fyddaf (4)
- 11 Hwn fydde metel y trydydd (4)
- 12 Cleddyf, bwa neu wn (3)
- 13 Heb raff yn un pen mae yn wastraff llwyr (4)
- 14 Eofn a mentrus (4)
- 15 Cryman oedd yn ei daflu ar nofel fawr 1953 (6)
- 16 Edrych a sylwi'n ofalus (6)
- 17 Trem all weld fod nam ar y garreg werthfawr (6)
- 18 Ansawdd a geir yn aml ar ôl swm (*idiom*) (6)
- 19 I'w cadw mewn theatr i fod yn siwr o le (5)
- 20 e.e.'Hywel a Blodwen' (5)

## ATEBION CROESAIR HYDREF 2019

**AR DRAWS** 1 Cyllideb, 5 Estyn, 8 Mwyar, 9 Einioes, 10 Dirybudd, 11 Sillaf, 12 Traed y Meirw, 16 Tebyg, 18 Jam Oren, 20 Dolefus, 21 Y Rhwyd, 22 Owain, 23 Ffroenau

**I LAWR** 1 Cymodi, 2 Llwybr, 3 Dŵr y Bae, 4 Breuddwyd Joseff, 5 Ernes, 6 Troellwr, 7 Nesaf, 13 Rubella, 14 Esmwytho, 15 Unedau, 16 Tudno, 17 Gofyn, 19 Rowen

Dau ohonoch wedi gwneud yr un camgymeriad y tro hwn, sef cynnig 'Croen y Meirw' (12 Ar Draws) yn lle'r ateb cywir 'Traed y Meirw' fel yn y dywediad 'gwynt traed y meirw' am wynt y dwyrain. Hefyd cafwyd 'Gwron' yn lle 'Gofyn' (17 i

1			2		3		4		5			6
7					8							
9		10		11								
						12		13		14		
15			16		17							18
							19		20			
21									22			
23					24							

Llawr) a 'Dolurus' yn lle 'Dolefus' (20 Ar Draws).  
Dyma enwau'r rhai anfonodd atebion cywir: Lowri Evans, Llanllechid; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys A. Pritchard-Jones, Margaret Williams, Abererch; Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Sian Beidas, Tregarth; Gill King, Mynydd Llandygai; John a Meirwen Hughes, Dilys Wyn Griffith, Abergele; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; John Huw Evans a Rhian

Evans-Hill, Llanberis; Adrian Poulton, Pentir; Jean Hughes, Talybont; Dilys Parry, Rhiwlas; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Bryn a Gwen Evans, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Llongyfarchiadau i chi oll.  
Ond yr enw cyntaf o'r celwrn sy'n derbyn y clod a'r wob, sef John a Meirwen Hughes, Cwellyn, 4 Heol Elwy, Abergele, Sir Conwy. LL22 7US. Da iawn chi.  
Atebion erbyn 7fed Rhagfyr, 2019 **fan bellaf** i 'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 7 Rhagfyr i 'Croesair Tachwedd'  
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad



## YSGOL LLANLLECHID

### Gwellhad Buan

Cynhaliwyd diwrnod o hwyl i godi arian tuag at gronfa Ms Lliwen. Cafwyd diwrnod byrlymus, a chafodd y disgyblion ddangos eu talentau i ni yn ein sioe Talent Llechid. Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Ms Lliwen, a dymunwn yn dda iawn iddi gyda'r triniaethau sy'n ei hwynebu. Llawer iawn o ddiolch i chi rieni am eich cymorth a'ch cefnogaeth i sicrhau diwrnod arbennig iawn, a braf oedd gweld Ms Lliwen yn mentro atom yn y prynhawn i ymuno yn yr hwyl! Yn yr un modd, anfonwn ein cofion at Ms Thelma, sydd ar hyn o bryd yn gwella yn dilyn gwaeledd. Mae pawb yn cofio atoch ac yn dymuno'n dda i chi Ms Thelma. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn ôl yma hefo ni yn fuan.

Croesawn Ms Leanne yn ôl yma atom, ac rydym i gyd yn falch o'i gweld! Clamp o ddiolch i Anti Wendy am sefyll yn yr adwy, ac am yr holl gymorth yn ystod yr wythnosau diwethaf yma.

### Dymuniad da

Pob dymuniad da i Zoe, sy'n ein gadael am gyfnod i fynd ar absenoldeb mamolaeth. Dymuniadau da i ti Zoe. Bydd yn chwith heb weld dy wên pob dydd!

### Siarter Iaith

Fel rhan o waith y Siarter Iaith, aeth ein disgyblion Blwyddyn 6 draw i Lanllyn, i gymryd rhan

mewn gweithdai i ddangos rhai o arferion da Ysgol Llanllechid i 150 o fyfyrwyr o Brifysgol Bangor. Cafwyd amser gwerth chweil, a braf cael cyd-weithio a chyd rannu arferion da ein hysgol hefo athrawon y dyfodol. Diolch i Ms Gwenlli Haf ac i Mrs Tegid am eu cymorth parod, ac i'n disgyblion Blwyddyn 6 am eu hymddygiad boneddigaidd, eu brwdfrydedd a'u haeddfedrydd. Diolch hefyd i Gwawr Maelor o Brifysgol Bangor am y gwahoddiad.

### Cyfarfod Diolchgarwch Capel Carmel

Braf iawn oedd cael mynd i Capel Carmel i'r Gwasanaeth Diolchgarwch i siarad hefo'r plant, a diolch unwaith eto i Mrs Helen Williams am ei gwaith di-flino yn arwain y cyfan gydag athrawon eraill yr Ysgol Sul. Roedd Capel Carmel yn werth ei weld, wedi ei addurno'n chwaethus ar gyfer y Diolchgarwch. Da iawn chi blant os am fynd i'r Ysgol Sul!

### Ein Perllan

Mae blynyddoedd wedi mynd heibio ers i Mrs Bethan Jones a'r disgyblion blannu ein coed afalau, ac erbyn hyn maent yn dwyn ffrwyth - llond bweedi i ddweud y gwir! Bu'r disgyblion yn brysur yn eu hel ac yn gwneud pentyrrau o gacennau afal blasus!

### Sialens Ddarllen yr Haf

Llongyfarchiadau calonogol i'r disgyblion a fu'n llwyddiannus yn



### Yasus

Braint oedd croesawu y bardd Yasus Afari o Jamaica atom i Ysgol Llanllechid - a'i neges oedd: Un Byd, Un cariad, Un Ddynoliaeth. Cawsom amser difyr yn ei gwmni yn canu, dawnsio ac yn dysgu am Jamaica, ynghyd â dysgu am bwysigrwydd cyfeillgarwch a'n cyd ymwneud â'n gilydd fel brodyr a chwiorydd ar draws y byd, gan ddathlu ein gwahaniaethau, a dysgu oddi wrth ein gilydd. Braint hefyd oedd cael cyfansoddi cerddi am y byd a'r betws o dan ein thema Ysgol Eco.

Sialens Ddarllen yr Haf sef: Dei Durrell, Taliesin Lewis-Williams, Grace Owen, Bobi Jac, Catrin Jones, Ela Grace Evans, Erin Jones, Mia Griffiths, Ioan Tetlow, Harri Hinchliffe, Dylan Billington, Catrin Sian a Mila Owen.

### Taith i Ynys Môn

Aeth dosbarth Blwyddyn 3, sef dosbarth Mrs Marian Jones, draw i Sir Fôn yn ddiweddar i gael gwneud gweithgaredd map ym Mhlas Newydd. Gan eu bod yn canolbwyntio ar goedwigoedd, roedd yn brofiad bendigedig cael dilyn y llwybrau hyfryd drwy'r coed, a gweld nifer fawr o wiwerod cochion yn sboncio yma a thraw ar hyd y canghennau uchel. Roedd lliwiau'r dail yn fendigedig, ac roedd y cyfan yn atgoffa'r plant o gerdd 'Dawns y Dail' gan T.

Llew Jones. Ar ôl cael cinio yn yr awyr agored, aethom draw i Oriol Môn yn Llangefni, lle cawsom weithdy arbennig. Cawsom ein haddysgu sut i edrych yn fanwl ar wahanol ddarnau o gelfyddyd, gan ganolbwyntio ar liw, siâp a chynnwys cefndiroedd y darluniau. Mae'n anhygoel sylweddoli faint o fanylion diddorol sy'n digwydd yng nghefndir pob un o'r lluniau! Diwrnod gwerth chweil!

### Cwpan y Byd

Wrth i ni gyd chwysu chwartaiau yn cefnogi ein gwlad, cafodd Mr David Alsop, tad Elsi a Beti, y cyfle i fynd i Japan i wylïo'r gemau! A chwarae teg iddo, aeth â chrys Ysgol Llanllechid hefo fo, ac mae'r lluniau'n werth eu gweld. Enghraifft arall o Addysg Byd Eang! Diolch Mr Alsop!



Disgyblion a Myfyrwyr yn Gymysg Oll Ynghyd